Prifysgol De Cymru

Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19

Gorffennaf 2017

Prifysgol De Cymru | Cynllun Ffïoedd a Mynediad 2018/19

Cynnwys

- **Crynodeb Gweithredol**

- **Cyflwyno Cynllun Ffïoedd a Mynediad 2018/19** (Tudalen 4)
  - *Cyflwyniad*
  - *Cyd-destun y Sefydliad*
  - *Ein Cynllun Ffïoedd a Mynediad*
  - *Awdurdodiad Bwrdd y Llywodraethwyr*

- **Adran Un | Ein Ffïoedd Dysgu** (Tudalen 11)

- **Adran Dau | Ein Gweithgareddau a'n Gwasanaethau** (Tudalen 12)

  - *Cyfle Cyfartal*
    - ✓ Codi Dyheadau
    - ✓ Cymorth i Lwyddo

  - *Hyrwyddo Addysg Uwch*
    - ✓ Profiadau Eithriadol
    - ✓ Cyflogadwyedd Myfyrwyr
    - ✓ Ymgysylltu Rhanbarthol
    - ✓ Datblygu Rhyngwladol

- **Adran Tri | Ein Targedau – Monitro a Gwerthuso** (Tudalen 36)

- **Adran Pedwar | Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth** (Tudalen 40)

- **Adran Pump | Ein Hymrwymiad i Fyfyrwyr** (Tudalen 42)

- Tablau'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad (*Tudalen 48*)

- *Atodiad A* | *Siarter Myfyrwyr (Tudalen 64)*

Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Ffïoedd a Mynediad 2018/19 Prifysgol De Cymru yn amlinellu cynlluniau'r sefydliad ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch ymhellach a hyrwyddo addysg uwch yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn 2018/19 yn benodol, mae ein hamcanion allweddol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Hyrwyddo Addysg Uwch fel a ganlyn:

Cyfle Cyfartal

1. Annog myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel i fynd i'r Brifysgol.
2. Annog myfyrwyr o bob grŵp oedran, yn enwedig myfyrwyr aeddfed, i astudio a llwyddo mewn addysg uwch (AU).
3. Annog myfyrwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig i astudio a llwyddo mewn AU.
4. Parhau i ymrwymo i'n partneriaethau AU mewn Addysg Bellach (AB) a dilyniant o golegau partner, gan gynnwys datblygu Prentisiaethau AU.
5. Gweithio gyda chanlyniadau Adolygiad Diamond[1] sy'n darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr rhan-amser yn y Brifysgol.
6. Gwella ein cyfraddau cadw myfyrwyr a'u llwyddiant, yn arbennig parhau i sicrhau bod myfyrwyr newydd yn ymuno ag AU, nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau a'r gyflogaeth a gyflawnir gan ein graddedigion.
7. Sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i ymsefydlu mewn gweithgarwch, yn enwedig trwy Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr a thrwy systemau cynrychiolaeth, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar waith trwy AU mewn AB.

Hyrwyddo Addysg Uwch

1. Sicrhau bod profiad ein myfyrwyr o addysg uwch yn werth chweil, fel y gwelir trwy welliannau mewn perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.
2. Sicrhau bod gan ein myfyrwyr ystod o sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth yn y dyfodol pan fyddant yn ein gadael, fel y gwelir gan ganlyniadau cyflogaeth a chyflogaeth graddedigion a fesurir gan yr arolwg Canlyniadau Graddedigion.
3. Cyflawni gofynion y Cynllun Academaidd trwy sicrhau bod pob myfyriwr yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith er mwyn cyflawni cyfres gytunedig o Briodoleddau Graddedigion Prifysgol De Cymru.
4. Hyrwyddo AU yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol, fel y gwelir trwy fwy o ymwybyddiaeth o frand a sefydlu partneriaethau.
5. Sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i ymsefydlu mewn gweithgarwch, yn enwedig trwy Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr a thrwy systemau cynrychiolaeth, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar waith mewn AB.

Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn esbonio sut y bydd Prifysgol De Cymru yn buddsoddi cyfanswm a ragwelir o £16.98 miliwn i gefnogi'r amcanion uchod ar gyfer Cyfle Cyfartal a Hyrwyddo Addysg Uwch. Rydym hefyd yn amlinellu 31 targed penodol ar gyfer mesur ein llwyddiant. Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol, ac rydym yn esbonio yn y ddogfen sut y bydd y targedau yr ydym wedi'u gosod i'n hunain yn cyd-fynd â Strategaeth y Brifysgol a dogfennau polisi allweddol eraill y Brifysgol, gan gynnwys y Cynllun Academaidd, y Cynllun Profiad Myfyrwyr a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym hefyd yn esbonio'n eglur sut mae ein targedau'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

[1] http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

Cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19

Cyflwyniad

Paratowyd y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn unol â chanllawiau Cynllun Ffïoedd a Mynediad 2018/19 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch, ac yn gosod targedau ar gyfer ehangu mynediad, cyfranogiad, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cadw myfyrwyr, bodlonrwydd myfyrwyr, llwyddiant myfyrwyr a chyflogadwyedd. Yn 2018/19 yn benodol, mae ein hamcanion allweddol yn cynnwys:

Cyfle Cyfartal

1. Annog myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel i fynd i'r Brifysgol.
2. Annog myfyrwyr o bob grŵp oedran, yn enwedig myfyrwyr aeddfed, i astudio a llwyddo mewn addysg uwch (AU).
3. Annog myfyrwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig i astudio a llwyddo mewn AU.
4. Parhau i ymrwymo i'n partneriaethau AU mewn AB a dilyniant o golegau partner, gan gynnwys datblygu Prentisiaethau AU.
5. Gweithio gyda chanlyniadau Adolygiad Diamond[2] sy'n darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr rhan-amser yn y Brifysgol.
6. Gwella ein cyfraddau cadw myfyrwyr a'u llwyddiant, yn arbennig parhau i sicrhau bod myfyrwyr newydd yn ymuno ag AU, nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau a'r gyflogaeth a gyflawnir gan ein graddedigion.
7. Sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i ymsefydlu mewn gweithgarwch, yn enwedig trwy Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr a thrwy systemau cynrychiolaeth, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar waith trwy AU mewn AB.

Hyrwyddo Addysg Uwch

8. Sicrhau bod profiad ein myfyrwyr o addysg uwch yn werth chweil, fel y gwelir trwy welliannau mewn perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.
9. Sicrhau bod gan ein myfyrwyr ystod o sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth yn y dyfodol pan fyddant yn ein gadael, fel y gwelir gan ganlyniadau cyflogaeth a chyflogaeth graddedigion a fesurir gan yr arolwg Canlyniadau Graddedigion.
10. Cyflawni gofynion y Cynllun Academaidd trwy sicrhau bod pob myfyriwr yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith er mwyn cyflawni cyfres gytunedig o Briodoleddau Graddedigion Prifysgol De Cymru.
11. Hyrwyddo AU yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol, fel y gwelir trwy fwy o ymwybyddiaeth o frand a sefydlu partneriaethau.
12. Sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i ymsefydlu mewn gweithgarwch, yn enwedig trwy Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr a thrwy systemau cynrychiolaeth, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar waith mewn AB.

Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru, fel y'u hamlinellir yn ei *Datganiad Polisi ar Addysg Uwch*. O ran *Cyfle Cyfartal*, mae ein Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cymru, sef:

> *"Cynnig cyfle i bob unigolyn, ni waeth beth fo'i amgylchiadau, gael profiad dysgu lefel uwch sy'n briodol, yn berthnasol ac yn werthfawr – ehangu mynediad i bawb sydd â'r potensial i elwa."*

[2] http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn hefyd yn llwyr gefnogi ymagwedd Llywodraeth Cymru at *Hyrwyddo Addysg Uwch*, fel y'i crynhoir yn y darn canlynol o'r *Datganiad Polisi ar Addysg Uwch*:

> *"Mae llwyddiant economaidd yn dibynnu ar ehangu gweithlu â sgiliau a galluoedd uchel – mae twf yn y dyfodol o ran swyddi newydd yn fwyaf tebygol o ddod o'r galwedigaethau sgiliau uchel sydd â chyfran uchel o raddedigion. Dylai Cymru fod yn bartner o ddewis ar gyfer busnes a buddsoddiad rhyngwladol, a dylid cynorthwyo myfyrwyr yng Nghymru i fod yn symudol yn rhyngwladol."*

Cyd-destun y Sefydliad

Mae Grŵp Prifysgol De Cymru yn cynnwys prifysgol fodern a dau is-gwmni, sef Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (yr ysgol gerddoriaeth genedlaethol) a Choleg Merthyr Tudful. Rydym yn unigryw o ran ehangder ein rôl ac mae ein gwaith wedi cael ei gydnabod trwy wobrau'r Deyrnas Unedig am gymorth arloesol i fyfyrwyr ac ehangu mynediad i AU trwy'r rhaglen flaengar Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI). Yn ogystal, cyraeddasom y rhestr fer ar gyfer Gwobr Arweinyddiaeth a Rheolaeth 2017 Times Higher Education ar gyfer "Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Flwyddyn", er cydnabyddiaeth am ein hymagwedd addysgol gyfannol a'n hymrwymiad i godi dyheadau ein myfyrwyr.

Mae gennym gampysau yng Nghasnewydd, Caerdydd a Phontypridd, ac rydym yn cyflawni rôl bwysig wrth gefnogi datblygu economaidd a hyrwyddo adfywio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae gan Brifysgol De Cymru fwy na 2,000 o staff a throsiant o £190 miliwn. Fodd bynnag, rydym ni'n fwy na chyflogwr mawr arall yn unig. Mae ein hadeiladau eiconig yn rhan bwysig o dirwedd ffisegol a diwylliannol y rhanbarth, mae gennym bartneriaethau â chyflogwyr allweddol ac rydym yn gwneud cyfraniad hollbwysig at les economaidd a chymdeithasol y cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt.

Trwy weithio gyda Choleg Penybont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Coleg Gwent a Choleg Merthyr Tudful (sy'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru), mae'r Brifysgol yn rhan o Gynghrair Strategol sy'n ymestyn ar draws De Cymru (*gweler isod*). Rydym ni'n falch o'r bartneriaeth hon gyda cholegau AB mawr rhanbarthol sy'n darparu addysg bellach ac uwch ar draws 38 campws a llu o leoliadau cymunedol i fwy na 98,000 o ddysgwyr.

Presenoldeb y Gynghrair Strategol wedi'i fapio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Gyda throsiant cyfunol o £380 miliwn, mae'r Gynghrair Strategol yn gyfrwng pwerus ar gyfer datblygu a chyflwyno ymagwedd integredig o fewn rhanbarth lle y ceir ardaloedd o amddifadedd materol a chymdeithasol a thangyflawni addysgol sylweddol o hyd. Nod y Gynghrair Strategol yw ehangu mynediad, trwy gefnogi dilyniant wrth i addysg bellach ac uwch gydweithio a rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i ddysgwyr. Yn y pen draw, ei nod yw darparu cynnig cwbl gydgysylltiedig ar gyfer cyflogwyr i wella lefelau sgiliau, gan roi hwb i berfformiad economaidd y rhanbarth a ffyniant pawb sy'n byw a gweithio ynddo.

Ein Cyfraniad Economaidd at Gymru

Yn ystod Gwanwyn 2016, comisiynodd Prifysgol De Cymru BiGGAR Economics i gynnal asesiad sylfaenol o gyfraniad economaidd-gymdeithasol y Brifysgol at y rhanbarth. Wrth gyflwyno eu canfyddiadau, dywedasant:

> *"Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth fesuradwy o'r cyfraniad economaidd sylweddol y mae Prifysgol De Cymru yn ei wneud at economi'r Deyrnas Unedig.* ***Efallai'r casgliad pwysicaf o'r dadansoddiad, fodd bynnag, yw graddau'r cyfraniad y mae'r Grŵp yn ei wneud at y rhanbarth – a'r cymunedau lleol – y mae'n gweithredu ynddo/ynddynt.*** *Un o nodweddion diffiniol pob un o'r meysydd gweithgarwch a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn yw'r graddau y mae pob un yn cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd rhanbarthol ac wedi'i ddylanwadu gan ffactorau economaidd-gymdeithasol lleol."*

Dyma brif ganfyddiadau'r astudiaeth hon:


FOR EACH £1
RECEIVED IN FUNDING
WE GENERATE £6.32
IN ECONOMIC IMPACT
WE GENERATE £1.2 BN
GVA AND SUPPORT
14,270
JOBS
ACROSS THE UK
WE GENERATE
£1BN
GVA AND 12,600
JOBS IN
WALES
FOR EACH £1 WE GENERATE FROM DIRECT OPERATIONS, WE SUPPORT
£9.21 IN BENEFITS
FOR THE UK
ECONOMY
OUR WORK WITH
INTERNATIONAL
STUDENTS BRINGS
£22.2M
DIRECTLY INTO THE
UK ECONOMY
7,000
GRADUATES
INTO THE
ECONOMY
EACH YEAR
£104,606
AVERAGE GRADUATE
PREMIUM PER INDIVIDUAL
EACH PERSON DIRECTLY
EMPLOYED BY THE
GROUP SUPPORTS
3 MORE JOBS
IN THE UK
79,000
DAYS OF CPD TRAINING
MAKING US ONE OF THE
UK TOP 10 UNIVERSITIES
BY VOLUME OF DELIVERY
64%
OF STUDENTS STAY IN THE
CARDIFF CITY REGION
AFTER GRADUATION
#1
NUMBER ONE
IN WALES FOR
WIDENING ACCESS
29%
OF USW STUDENTS FROM
MOST DEPRIVED AREAS
OF WALES

Ein Hymrwymiad i Ehangu Mynediad

Mae gan Brifysgol De Cymru hanes rhagorol o ehangu cyfranogiad. Gwelir tystiolaeth o hyn trwy ein perfformiad yn ystod y cyfnod 2011 i 2015, lle'r oedd canran myfyrwyr Prifysgol De Cymru a oedd yn byw yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru neu'n dod o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf wedi cynyddu i 31%, sef yr uchaf yng Nghymru ac 8% yn uwch na Tharged Strategaeth Gorfforaethol CCAUC o 22.4%. Bydd y mesur hwn yn parhau i gael ei fonitro yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ym Mhrifysgol De Cymru mor berthnasol â phosibl i'r cymunedau a wasanaethwn, yn aros wrth wraidd ein strategaeth, ac yn cael ei hyrwyddo trwy fentrau fel ymyrraeth gynnar trwy Gampws Cyntaf[3], GO Wales, gwaith ein Tîm Cyswllt ag Ysgolion a Cholegau a'r cymorth parhaus a roddwn i fyfyrwyr, drwy gydol eu cyfnod gyda ni.

Mae Prifysgol De Cymru hefyd wedi cynyddu cyfanswm nifer y bobl ifanc sy'n dilyn gradd gyntaf amser llawn sy'n dod o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR3)[4] a'r gwahaniaeth canrannol rhwng perfformiad gwirioneddol a pherfformiad wedi'i feincnodi. Yn 2015-16, roedd 48% o'n myfyrwyr a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig yn dod o "ardaloedd cyfranogiad isel". Yn 2015/16, roedd 49% o'r rhai a dderbyniwyd i Brifysgol De Cymru trwy UCAS a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig yn dod o'r ddau gwintel mwyaf difreintiedig, o gymharu â 29% ar draws holl sefydliadau'r Deyrnas Unedig a 36% ar gyfer sefydliadau yng Nghymru. Bydd y mesur hwn yn parhau i gael ei fonitro yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn hefyd. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn cynorthwyo myfyrwyr o gefndir cyfranogiad isel i ymuno ag addysg uwch trwy ddarparu dewisiadau amgen yn lle rhaglen radd amser llawn tair blynedd draddodiadol. Er bod nifer ein myfyrwyr rhan-amser wedi gostwng oherwydd bod y rhaglen UHOVI wedi dod i ben, yn 2015/16 roedd oddeutu 20.7% o'r myfyrwyr israddedig a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig ac yn astudio ym Mhrifysgol De Cymru yn gwneud hynny'n rhan-amser. Trwy gynnig dewisiadau astudio rhan-amser, mae darpar fyfyrwyr yn gallu dysgu o amgylch eu hymrwymiadau gwaith neu deuluol. Fel yr amlygwyd, mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio'n agos gyda cholegau AB (gweler Adran 2 am ragor o wybodaeth) i alluogi myfyrwyr nad ydynt wedi ystyried astudiaethau lefel uwch yn gynharach yn eu bywydau, o bosibl, neu sydd ag anawsterau symudedd, i gael mynediad at addysg uwch yn lleol. Mae hyn wedi annog llawer o bobl i ddychwelyd i addysg ar ôl cymryd ychydig o amser i ffwrdd (e.e. mae 42% o boblogaeth fyfyrwyr 2015/16 Prifysgol De Cymru dros 25 oed[5] ac mae 19.6% o'r boblogaeth fyfyrwyr sy'n astudio graddau cyntaf yn fyfyrwyr aeddfed o gefndir cyfranogiad isel).

Mae'r Brifysgol wedi targedu gwelliant mewn meysydd penodol, yn arbennig gwella dilyniant myfyrwyr BME (a dargedwyd trwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol[6]) a recriwtio a llwyddiant y Rhai sy'n Gadael Gofal.

Mae ein hymrwymiad parhaus i godi dyheadau ac ehangu mynediad yn parhau i fod yn hanfodol i lwyddiant a chynaliadwyedd y Brifysgol yn y dyfodol, ac i lwyddiant a chynaliadwyedd y rhanbarth a thu hwnt. Byddwn yn parhau i osod targedau heriol er mwyn gwella, lle y bo'n bosibl, ein lefelau recriwtio a dilyniant o'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf ledled De-ddwyrain Cymru a thu hwnt, a chynnig ystod gynhwysfawr o weithgareddau a gwasanaethau (*fel yr amlinellir yn Adran 2*) i gefnogi dilyniant a llwyddiant.

Ein Hymrwymiad: gweddnewid bywydau unigolion, cymunedau a'r economi

Ym Mhrifysgol De Cymru, mae dysgu ac addysgu yn ymwneud nid yn unig â'r hyn yr ydym yn ei wneud *ar gyfer* myfyrwyr, ond sut yr ydym yn gweithio *gyda* nhw – gan gyrraedd eu calonnau

---

[3] Partner arweiniol - http://www.firstcampus.org/about-us

[4] Mae'r dosbarthiad POLAR, a ddefnyddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), yn ystyried pa mor debygol yw pobl ifanc o gymryd rhan mewn AU ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn dangos sut mae hyn yn amrywio yn ôl ardal – mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy fynd i http://www.hefce.ac.uk/analysis/yp/POLAR/

[5] Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol ac Adolygiad Blynyddol Prifysgol De Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2016. www.southwales.ac.uk/.../FINANCIAL_STATEMENT_and_REVIEW_2016_2.pdf

[6] http://hr.southwales.ac.uk/hr/equalitydiversity/strategic_equality_plan/

a'u meddyliau. Mae addysgeg sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth a gwerthoedd yn sbarduno dull arwain hwylusol, ac mae rhwystrau fertigol a llorweddol rhwng myfyrwyr, academyddion ac adrannau proffesiynol yn cael eu croesi a'u herio.

Mae addysgu effeithiol, sy'n hwyluso canlyniadau myfyrwyr, yn hanfodol. Fodd bynnag, mae'r maes affeithiol, gan gynnwys teimladau a hunaneffeithiolrwydd dysgwyr, yr un mor bwysig. Mae gan Brifysgol De Cymru hanes rhagorol o alluogi myfyrwyr o bob oedran i gymryd rhan mewn addysg uwch a chreu llwybrau i gyflawni hyn.

Mae ein partneriaethau cryf ag ysgolion, colegau AB a darparwyr addysg eraill, a'n defnydd o ddulliau dysgu modern a thraddodiadol, wedi bod yn elfen bwysig o'n llwyddiant. Rydym yn haeddiannol falch o'n llwyddiannau wrth gefnogi dysgwyr anhraddodiadol nid yn unig i ddymuno cymryd rhan, ond i gyflawni canlyniadau eithriadol a gwireddu gweledigaeth Strategaeth ein Prifysgol a bod:

> *"Y Brifysgol o ddewis yng Nghymru a thu hwnt ar gyfer myfyrwyr, sefydliadau a chymunedau sy'n gwerthfawrogi addysg sy'n canolbwyntio ar alwedigaethau ac ymchwil gymhwysol sy'n darparu datrysiadau i broblemau sy'n effeithio ar gymdeithas a'r economi"*

Ein Cynllun Ffïoedd a Mynediad ar gyfer 2018/19

Yn 2018/19, mae Prifysgol De Cymru yn rhagweld buddsoddi **£16.98 miliwn**, i gefnogi gweithgareddau a gwasanaethau'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad mewn perthynas â Chyfle Cyfartal a Hyrwyddo Addysg Uwch. Mae'r buddsoddiad hwn (gweler Tabl B ***cysylltiedig*** a'r tabl isod) wedi cael ei brisio'n llawn yn seiliedig ar gynllunio cyllidebol manwl ar draws y Brifysgol a chyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a phartneriaid y Gynghrair Strategol AB. Yn yr un modd â Chynlluniau Ffïoedd blaenorol, bwriadwn ddarparu ystod gynhwysfawr o gymorth ariannol i fyfyrwyr a amlinellir yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn.

Rhagolygon Gwariant Cynllun Ffïoedd a Mynediad 2018/19	
Cyfle Cyfartal	£ 000oedd
hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch, gan gynnwys amlygu unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau a dangynrychiolir	475
denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir	1,603
cynyddu dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gefnogi llwyddiant mewn addysg uwch	302
cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw, dilyniant a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr	1,455
gwella'r profiad addysg uwch ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch	1,279
darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau	353
darparu cymorth academaidd a lles o ansawdd uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch	1,997
cynorthwyo grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudio pellach	1,089
Arall, er enghraifft gwerthuso'r cynllun ffïoedd a mynediad	49
Hyrwyddo Addysg Uwch	
ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru	274
gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad myfyrwyr	3,491
cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru	477
hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol	1,864
darparu addysg uwch gynaliadwy	1,540

cynyddu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar fyfyrwyr	682
Arall, er enghraifft gwerthuso'r cynllun ffïoedd a mynediad	48

Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Prifysgol De Cymru, yn enwedig ein blaenoriaethau strategol:

- *byddwn yn darparu llwybrau dilyniant eglur trwy ddatblygu a darparu ymagwedd ranbarthol gydlynol integredig (Cyfle Cyfartal)*
- *byddwn yn darparu cyfleoedd addysg uwch hygyrch ac yn gweithredu fel sbardun ar gyfer twf economaidd a chyfiawnder cymdeithasol (Cyfle Cyfartal)*
- *byddwn yn darparu sgiliau a phrofiad gyrfaol er mwyn paratoi ein myfyrwyr ar gyfer byd gwaith (Hyrwyddo Addysg Uwch)*
- *byddwn yn datgloi doniau a chyfoeth ein cymunedau lleol ac yn creu partneriaethau adeiladol (Hyrwyddo Addysg Uwch)*

Lle y bo'n berthnasol, mae ein Dangosyddion Perfformiad Critigol[7] wedi cael eu cynnwys fel targedau i ddangos sut mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn cyd-fynd yn eglur â Strategaeth y Brifysgol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn cyd-fynd â Chynllun Academaidd y Brifysgol[8] sy'n amlinellu'r ffordd y bwriadwn wella profiad myfyrwyr a rhanddeiliaid er mwyn cyflawni'r nodau strategol a amlinellir yn Strategaeth y Brifysgol. Unwaith eto, lle y bo'n berthnasol, mae targedau'r Cynllun Academaidd wedi cael eu cynnwys i ddangos sut mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn cyd-fynd yn eglur â chynllunio strategol a gweithredol y sefydliad.

Mae buddsoddiad ein Cynllun Ffïoedd blaenorol wedi galluogi miloedd o fyfyrwyr i gymryd rhan mewn addysg uwch na fyddent wedi gwneud hynny fel arall o bosibl. Rydym wedi buddsoddi ar y lefelau a gynlluniwyd neu'n uwch na hynny, gan gynnwys darparu ar gyfer bwrsariaethau, cronfeydd caledi a chymorth ariannol arall, e.e. "costau ychwanegol astudio", er mwyn sicrhau nad oedd ystyriaethau ariannol yn rhwystro mynediad, dilyniant neu lwyddiant.

Wrth ddosrannu buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau a gwasanaethau Cyfle Cyfartal, dylid nodi ein bod wedi ceisio gwahaniaethu rhwng y rhai hynny a dargedir yn gyfan gwbl at gefnogi recriwtio, dilyniant a llwyddiant grwpiau a dangynrychiolir (cyfraniad llawn) a'r rhai hynny sy'n cyfrannu at gefnogi recriwtio, dilyniant a llwyddiant grwpiau a dangynrychiolir (cyfraniad 30%-50% tybiannol yn seiliedig ar ganran gyfredol y boblogaeth fyfyrwyr sy'n dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf/Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a/neu farn broffesiynol yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol o wasanaethau). Er enghraifft, mae'r buddsoddiad llawn ar gyfer ein Tîm Cyswllt ag Ysgolion a Cholegau yn dod o'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad lle mae 30% wedi cael ei dosrannu i ddenu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir (Cyfle Cyfartal), 20% i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru (Hyrwyddo Addysg Uwch) a 50% i weithgareddau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar ddysgwyr (Hyrwyddo Addysg Uwch).

Credwn fod yr ymagwedd hon yn rhesymol o ystyried, fel sefydliad, nad ydym yn gyffredinol yn ceisio gwahaniaethu rhwng darparu ein gweithgareddau a'n gwasanaethau yn seiliedig ar

[7] *Ym mis Chwefror 2014, cymeradwyodd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru gyfres o 10 Dangosydd Perfformiad Critigol a fyddai'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn pob un o nodau strategol (a chynaliadwyedd ariannol) y Brifysgol yn ystod cyfnod cynllunio 2014/20. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn monitro'r Dangosyddion Perfformiad Critigol hyn bob chwe mis ar hyn o bryd trwy gyfrwng adroddiad graddio Coch, Melyn, Gwyrdd.*

[8] *Ym mis Mehefin 2014, cymeradwyodd Bwrdd Academaidd Prifysgol De Cymru y Cynllun Academaidd, sef y cyfrwng gweithredol ar gyfer "gwireddu Strategaeth y Brifysgol" trwy egluro ein cyfeiriad strategol, e.e. datblygu portffolio, rheoli dilyniant, datblygu staff ac amgylcheddau dysgu.*

nodweddion myfyrwyr penodol. Yn hytrach "*ceisiwn ddenu, dewis a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio ym Mhrifysgol De Cymru a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi'r* ***holl*** *fyfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol â'r Brifysgol a cholegau partner er mwyn gwireddu eu potensial llawn"* (*gweler Adran 4 ar gyfer ein hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth*).

Gwybodaeth Gyswllt ar gyfer y Cynllun Ffïoedd a Mynediad
Os bydd gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn, cysylltwch â **Mark Cadwallader**, Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad, ar 01443 482801 neu mark.cadwallader@southwales.ac.uk.

Awdurdodiad Bwrdd y Llywodraethwyr

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffïoedd a mynediad i'w cyflwyno i CCAUC, mae Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru yn:

i. cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffïoedd a mynediad hwn ar gyfer 2018/19 yn gywir ar adeg ei ysgrifennu, ac wedi'i seilio ar ddata y gellir ei wirio.

ii. cadarnhau ei fod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/data arall y mae'n ei (d)dal am ymgeisydd a reoleiddir ar hyn o bryd, ni waeth p'un a ddarparwyd y wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015;

iii. deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld ag ymgeiswyr er mwyn cael dealltwriaeth well o gymhwysedd yn ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd mewn cynlluniau ffïoedd a mynediad ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan ymgeiswyr neu ar ran ymgeiswyr.

iv. deall bod rhaid iddo ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau ef a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg ar ei ran i CCAUC a/neu asiant CCAUC.

v. deall y caiff CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad yn ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ymgeiswyr, neu ar ran yr ymgeiswyr, a bod rhaid i gyrff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddynt gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC at y diben hwn.

vi. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir ganddo, neu ar ei ran, ni waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei hystyried mewn ceisiadau cynllun ffïoedd a mynediad.

vii. cadarnhau bod y sefydliad mewn perygl isel o fethu am resymau ariannol yn ystod y tymor canolig i'r tymor hir.

viii. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nid yr un cwmni a/neu unigolyn a baratôdd y cyfrifon yw'r archwilydd cofrestredig.

ix. deall bod rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

x. deall bod rhaid cyflawni unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynllun ffïoedd a mynediad gwreiddiol ar gyfer 2017/18, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC.

Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu: 31 Gorffennaf 2017
Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu:


Dyddiad: 31 Gorffennaf 2017

Adran Un | Ein Ffïoedd Dysgu

Yn 2018/19, mae Prifysgol De Cymru[9] yn bwriadu codi ffïoedd dysgu o £9,000 y flwyddyn[10] [11] ar fyfyrwyr newydd sy'n dilyn rhaglenni gradd, tystysgrif addysg uwch ac addysg a hyfforddiant ar ôl oed gorfodol (PCET) israddedig amser llawn. Amlinellir manylion ffïoedd dysgu eraill yn Nhablau C a D ***cysylltiedig*** ac fe'u crynhoir isod. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar strwythurau ffïoedd blaenorol lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r ffi hon ar gyfer cyfnod eu hastudiaethau.

- *Byddwn yn parhau i godi £8,250 ar fyfyrwyr gradd israddedig nad ydynt yn STEM a ddechreuodd eu hastudiaethau yn 2014/15 am gyfnod eu cwrs; mae nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr yn y categori ffi hwn yn fach*
- *Byddwn yn parhau i godi £8,000 ar fyfyrwyr gradd israddedig nad ydynt yn STEM a ddechreuodd eu hastudiaethau rhwng 2012/13 a 2013/14 am gyfnod eu cwrs; mae nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr yn y categori ffi hwn yn fach*
- *Byddwn yn parhau i godi £7,500 ar fyfyrwyr gradd israddedig yr hen Brifysgol Casnewydd a ddechreuodd eu hastudiaethau rhwng 2012/13 a 2013/14 am gyfnod eu cwrs; mae nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr yn y categori ffi hwn yn fach*
- *Byddwn yn codi £1,800 y flwyddyn ar fyfyrwyr blwyddyn allan ryngosod am gyfnod eu lleoliad rhyngosod.*
- *Byddwn yn codi £8,000 ar fyfyrwyr israddedig ar y campws nad ydynt yn dilyn gradd (ac eithrio tystysgrifau addysg uwch a PCET) a ddechreuodd eu hastudiaethau yn ystod blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18 am gyfnod eu cwrs. Bydd nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr oddeutu 650-700*
- *Byddwn yn parhau i godi £6,750 ar fyfyrwyr israddedig ar y campws nad ydynt yn dilyn gradd (ac eithrio tystysgrifau addysg uwch a PCET) a ddechreuodd eu cwrs yn ystod blwyddyn academaidd 2014/15 am gyfnod eu cwrs. Mae nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr yn y categori ffi hwn yn fach*
- *Byddwn yn codi £7,500 ar fyfyrwyr israddedig oddi ar y campws nad ydynt yn dilyn gradd (ac eithrio tystysgrifau addysg uwch a PCET) a ddechreuodd eu hastudiaethau yn ystod blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18 am gyfnod eu cwrs. Bydd nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr oddeutu 1620*
- *Byddwn yn parhau i godi £6,750 ar fyfyrwyr israddedig oddi ar y campws nad ydynt yn dilyn gradd (ac eithrio tystysgrifau addysg uwch a PCET) a ddechreuodd eu cwrs yn ystod blwyddyn academaidd 2014/15 am gyfnod eu cwrs. Mae nifer ddisgwyliedig y myfyrwyr yn y categori ffi hwn yn fach.*

Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn ymestyn i raglenni addysg uwch a gynigir ar sail freiniol, yn benodol y rhai hynny a gyflwynir trwy rwydwaith y Brifysgol o golegau partner y Gynghrair Strategol Addysg Bellach. Mae'r colegau hyn yn bwriadu codi ffi ddysgu o £9,000 y flwyddyn ar gyfer rhaglenni gradd israddedig amser llawn a £7,500 ar gyfer rhaglenni israddedig nad ydynt yn radd.

Y ffi gyfartalog gyffredinol ar draws Prifysgol De Cymru a'i cholegau partner addysg bellach yn 2018/19 fydd £8,726 y flwyddyn.

[9] *Gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (is-gwmni a berchenogir yn gyfan gwbl gan Brifysgol De Cymru)*

[10] *Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adolygu'r ffïoedd hyn mewn ymateb i gamau gweithredu sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r uchafswm ffïoedd yng Nghymru o 2018/19 ymlaen, parthed datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dyddiedig 11 Gorffennaf 2017*

[11] *Mae'r Brifysgol yn dilyn polisi o gadw'r ffïoedd yr un fath ar hyd cyfnod astudiaethau ar hyn o bryd*

Adran Dau | Ein Gweithgareddau a'n Gwasanaethau

Bydd yr adran hon yn dangos sut mae Prifysgol De Cymru'n darparu ystod gynhwysfawr o weithgareddau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar godi dyheadau a chyrhaeddiad ein myfyrwyr, yn enwedig y rhai hynny o gefndir anhraddodiadol. Yn unol â Strategaeth Gorfforaethol 2013-2017 CCAUC, mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i 'ddatblygu ymhellach gyfleoedd dysgu, cadw a dilyniant cynhwysol er mwyn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol a symudedd ar gyfer pob dysgwr o **bob** oed a chefndir. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu amcan strategol CCAUC ar gyfer y dyfodol, sef sicrhau bod 'mwy o bobl o bob oed yn cael cyfle i astudio a llwyddo mewn AU, ni waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, nodweddion gwarchodedig neu amgylchiadau eraill.'

Mae hyrwyddo addysg uwch a'n hymrwymiad i gyfle cyfartal yn rhan annatod o'n prosesau derbyn ac rydym yn cynnig cyngor a chymorth ariannol cynhwysfawr i fyfyrwyr. Gwelir hyn trwy ein hanes o ehangu mynediad, lle yn 2015/16 roedd 31% o'n poblogaeth fyfyrwyr a oedd yn byw yng Nghymru a 48% o'n poblogaeth fyfyrwyr a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig yn dod o ardaloedd cyfranogiad isel. Yn ogystal â'r hanes rhagorol hwn, mae cymorth wedi'i deilwra ar gael i grwpiau penodol a dangynrychiolir, gan gynnwys myfyrwyr ag anableddau a'r rhai sy'n gadael gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth gorau tra eu bod yn dilyn eu cyrsiau addysg uwch. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'n holl fyfyrwyr, yn enwedig y rhai hynny sydd â rôl gynrychioliadol yn yr Undeb Myfyrwyr neu ar draws y Brifysgol. Yn ei hanfod, mae ymagwedd Prifysgol De Cymru at gynorthwyo myfyrwyr, cynwysoldeb a chodi dyheadau, fel y'i hamlygir yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn, wedi'i chynllunio i recriwtio, cadw a sicrhau cyflawniad ei phoblogaeth fyfyrwyr ni waeth beth fo'u cefndir, nodweddion demograffig neu breswylfan. Mae'r boblogaeth fyfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru yn amrywiol o ran cefndir, oedran a modd astudio, ac mae ganddi gymysgedd unigryw yng Nghymru.

Bydd yr holl amcanion a thargedau a osodwyd yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn cyfrannu at gynaliadwyedd cyflwyno'r ddarpariaeth addysg uwch gan Brifysgol De Cymru. Trwy sicrhau trefniadau recriwtio cadarn, gan gynnwys grwpiau anhraddodiadol wedi'u targedu, prosesau cadw rhagorol, cyflawniad gwell, gan gynnwys cwblhau gan fyfyrwyr, a sicrhau bod ein graddedigion yn cael cyflogaeth neu'n parhau i astudio, bydd Prifysgol De Cymru yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at nifer y myfyrwyr sy'n dilyn addysg uwch yng Nghymru. Mae'n amlwg bod heriau'n bodoli yn y tymor canolig, ond mae cyfleoedd ar gael hefyd yn sgil newidiadau i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr rhan-amser yn y Brifysgol. Mae gan Brifysgol De Cymru hanes o ymateb i newid a bod yn hyblyg ac arloesol wrth gynllunio a chyflwyno cyrsiau. Bydd y strategaeth hon yn cefnogi addysg uwch gynaliadwy yng Nghymru.

Mae amrywiaeth o Astudiaethau Achos Buddsoddiad Cynllun Ffïoedd a Mynediad wedi'u cynnwys yn yr adran hon hefyd i amlygu prosiectau a mentrau penodol a ddarperir er budd ein myfyrwyr a rhanddeiliaid yn fwy cyffredinol.

Cyfle Cyfartal

Bydd amcanion y Brifysgol o ran mynd i'r afael â chyfle cyfartal ar gyfer 2018/19 yn canolbwyntio ar:

1. **Annog myfyrwyr o ardaloedd Cyfranogiad Isel i fynd i'r Brifysgol**
2. **Annog myfyrwyr o bob grŵp oedran, yn enwedig myfyrwyr aeddfed, i astudio a llwyddo mewn addysg uwch**
3. **Annog myfyrwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig i astudio a llwyddo mewn AU**
4. **Parhau i ymrwymo i'n partneriaethau AU mewn AB a dilyniant o golegau partner, gan gynnwys datblygu Prentisiaethau AU**
5. **Gweithio gyda chanlyniadau Adolygiad Diamond[12] sy'n darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr rhan-amser yn y Brifysgol.**
6. **Gwella ein cyfraddau cadw myfyrwyr a'u llwyddiant, yn arbennig parhau i sicrhau bod myfyrwyr newydd yn ymuno ag AU, nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau a'r gyflogaeth a gyflawnir gan ein graddedigion.**
7. **Sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i ymsefydlu mewn gweithgarwch, yn enwedig trwy Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr a thrwy systemau cynrychiolaeth, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar waith trwy AU mewn AB.**

Codi Dyheadau

Mae Prifysgol De Cymru yn ystyried ei chyfrifoldeb i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer myfyrwyr o bob cefndir o ddifrif ac, yn arbennig, darparu mynediad i'r rhai hynny a allai fod y cyntaf yn eu teulu i astudio am radd neu'r rhai hynny o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y rhanbarth a thu hwnt. Rydym yn falch o'n llwyddiannau wrth gynorthwyo'r myfyrwyr newydd hyn nid yn unig i ddyheu am gymryd rhan, ond i lwyddo a chyflawni canlyniadau eithriadol.

Mesurau Cysylltiedig y Cynllun Ffïoedd a Mynediad (CFfM) er mwyn:

i. **hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch, gan gynnwys amlygu unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau a dangynrychiolir**

ii. **denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir**

iii. **cynyddu dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gefnogi llwyddiant mewn addysg uwch**

Buddsoddiad CFfM[13] = £2.28 miliwn

Targedau CFfM

TCFfM1 Mynediad Teg at AU – yn 2018/19, bydd Prifysgol De Cymru'n cyflwyno sgyrsiau a digwyddiadau AU oddi ar y campws mewn ysgolion a cholegau targed ehangu mynediad a chyfrwng Cymraeg = 225 o sgyrsiau a digwyddiadau

[12] http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy
[13] Gweler tudalen 8 am egwyddorion cyffredinol mewn perthynas â dosrannu buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad

TCFfM2	Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – yn 2018/19, cyfran y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch ym Mhrifysgol De Cymru sy'n byw yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru = 31.2%
TCFfM 3	Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – yn 2018/19, canran y bobl ifanc sy'n byw yn y Deyrnas Unedig sy'n dilyn gradd gyntaf amser llawn ym Mhrifysgol De Cymru sy'n dod o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR3) = o leiaf 5% yn uwch na meincnod sefydliadol HESA[14]
TCFfM 4	Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – yn 2018/19, canran y myfyrwyr israddedig amser llawn aeddfed ym Mhrifysgol De Cymru sy'n byw yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddynt brofiad blaenorol o AU ac sy'n dod o gymdogaeth cyfranogiad isel (POLAR3) = o leiaf 5% yn uwch na meincnod sefydliadol HESA
TCFfM 5	Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – Lleihau'r bwlch rhwng parhad myfyrwyr Gwyn Prydeinig a myfyrwyr BME = gostyngiad i 5%.
TCFfM 6	Dilyniant AB – yn 2018/19, dilyniant myfyrwyr o bartneriaid y Gynghrair Strategol AB (Lefel 5 i Lefel 6 Amser Llawn) = 60%[15]

Y Tîm Cyswllt ag Ysgolion a Cholegau

Mae ein Tîm Cyswllt ag Ysgolion a Cholegau yn datblygu partneriaethau ag ysgolion[16] a cholegau blaenoriaeth ehangu mynediad ar draws y rhanbarth a thu hwnt i annog cyfranogiad a dilyniant AU. Rydym yn ymgysylltu â darpar fyfyrwyr, athrawon, cynghorwyr a rhieni i godi dyheadau, annog myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch, a hyrwyddo llwybrau i gyflawni hyn. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg i annog myfyrwyr i ddilyn cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn AU. Yn arbennig, rydym yn ceisio creu cyfleoedd i bobl o gefndir annhraddodiadol archwilio cyfleoedd addysg uwch, fel y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel.

Mae ein gweithgareddau a'n gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yn rhoi blas iddynt ar addysg uwch ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar lwybrau dilyniant:

- Diwrnodau Ymweld â'r Brifysgol a gweithdai ymgeisio ar-lein trwy UCAS: Mae grwpiau ysgolion a cholegau ehangu mynediad yn ymweld â ni i gael gwybod mwy am addysg uwch, archwilio ein campysau a chael cymorth i gwblhau eu ceisiadau UCAS.
- Digwyddiadau penodol i bwnc: Mae gweithgareddau a digwyddiadau fel diwrnodau blasu, darlithiau enghreifftiol, gweithdai a chynadleddau Safon Uwch yn rhoi syniad i fyfyrwyr o sut beth yw astudio'r pwnc hwnnw yn y brifysgol. Mae myfyrwyr yn ymweld â'n campysau i gael profiad ohonynt, neu mae ein staff darlithio'n ymweld ag ysgolion a cholegau ehangu mynediad i gyflwyno sgyrsiau a gweithdai.
- Swyddogion Cydweithredu a Dilyniant AB: Mae Prifysgol De Cymru'n parhau i ariannu dau swyddog Recriwtio a Dilyniant Cydweithredol ac, ar y cyd â'r tîm cyswllt ag ysgolion a cholegau ehangach, maen nhw'n ymgysylltu ag ysgolion ledled rhanbarth blaenorol UHOVI. Mae gweithgareddau'n cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth, sesiynau dilyniant a diwrnodau gwybodaeth.

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad | Digwyddiad Sefydlu Chweched Dosbarth Rhondda Cynon Taf

14 *Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch - www.hesa.ac.uk/pis*
15 *Hefyd, Dangosydd Perfformiad Critigol #7 a Tharged Cynllun Academaidd 2.1 Prifysgol De Cymru*
16 *A amlygwyd gan Brifysgol De Cymru*

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn croesawu myfyrwyr Blwyddyn 12 o ysgolion a cholegau yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer digwyddiad sefydlu i gychwyn eu hastudiaethau.

Mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fel gweithdai adeiladu tîm, darlith ar entrepreneuriaeth, panel holi ac ateb myfyrwyr, teithiau o amgylch cyfleusterau'r Brifysgol a sesiwn ar Pam Addysg Uwch? Drwy gydol y digwyddiad, mae'r myfyrwyr yn cael dealltwriaeth o addysg uwch a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Campws Cyntaf

Mae Campws Cyntaf ym Mhrifysgol De Cymru yn darparu portffolio cynhwysfawr o weithgareddau/prosiectau drwy gydol y flwyddyn academaidd sy'n targedu pobl ifanc o ardaloedd cyfranogiad isel sydd mewn perygl o gael eu hymyleiddio o addysg ôl-orfodol. Mae Campws Cyntaf yn cyflwyno'r rhai sy'n cymryd rhan i amgylch Prifysgol, yn codi eu dyheadau addysgol ac yn herio camdybiaethau ynglŷn ag Addysg Uwch. Mae israddedigion a darlithwyr prifysgol yn gallu siarad am lwybrau dilyniant i AU, gan gynnwys AU mewn AB, ac mae gweithwyr proffesiynol o ddiwydiant yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynglŷn â phrentisiaethau a'r sgiliau a'r safonau a ddisgwylir.

Gwelliannau mewn cyrhaeddiad Grwpiau BME

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol yn amlinellu gweithgareddau i gefnogi gwelliant yn y maes hwn. Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno cyfres o Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Grŵp Prifysgol De Cymru rhwng 2016 a 2020. Diben allweddol gosod yr amcanion cydraddoldeb hyn yw sbarduno canlyniadau gwell i bobl (staff a myfyrwyr) a chanddynt nodweddion gwarchodedig. Wrth osod yr amcanion hyn, ystyriodd y Brifysgol adborth o broses ymgynghori, ynghyd â data cydraddoldeb sefydliadol a gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i bennu'r materion cydraddoldeb mwyaf perthnasol o fewn cymunedau Grŵp Prifysgol De Cymru ac mae wedi ffurfio'r blaenoriaethau a osodwyd trwy'r amcanion. Nod yr amcanion hyn yw dileu rhwystrau, hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da a gwella perfformiad. Cydnabyddwn mai nod tymor hir yw cyflawni'r amcanion hyn a fydd yn gofyn am weithredu rhagweithiol a pharhaus ar y cyd i gyflawni newid.

Mae'r gweithgareddau'n cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Profiad Myfyrwyr (mae mwy o wybodaeth ar gael yn ddiweddarach yn yr adran hon). Bydd cyflwyno Hyfforddiant Academaidd Personol, a fydd yn neilltuo hyfforddwr academaidd unigol i bob myfyriwr ar gyfer cyfnod ei astudiaethau, yn darparu cymorth academaidd un i un ar gyfer myfyrwyr. Yn ogystal, bydd cyflwyno Dadansoddeg Dysgwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 yn darparu gwybodaeth ystadegol i Hyfforddwyr Personol ac eraill sy'n cyflawni rolau cymorth yn y Brifysgol er mwyn ychwanegu at wybodaeth am ymgysylltiad a chyflawniad academaidd myfyrwyr, gan sicrhau y gellir cynnig ymyrraeth briodol i'r myfyrwyr y mae arnynt ei hangen fwyaf.

Bydd cynnydd yn y maes hwn yn cael ei fonitro trwy Gynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol[17]. Ar gyfer y maes hwn, arweinir y cyfrifoldeb am sicrhau cynnydd gan y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ac fe'i hasesir yn flynyddol, bob mis Rhagfyr, trwy'r broses Monitro Blynyddol sy'n adrodd i Fwrdd Academaidd y Brifysgol.

Cymorth ar gyfer Gweithwyr Gofal

Mae gan y Brifysgol ymrwymiad eglur i annog a chynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal trwy'r Brifysgol. Mae ei Chydlynydd dynodedig ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal yn helpu i hyrwyddo

[17] *http://hr.southwales.ac.uk/media/files/documents/2016-06-30/Appendix_1_-_USW_Strategic_Equality_Action_Plan_2016_to_2020.pdf*

AU a chynnydd cyflawniad myfyrwyr. Cynigir cyngor a chymorth i ddarpar fyfyrwyr y Brifysgol ar hyd eu taith ymgeisio, gan gynnwys cymorth wrth ddewis pa gwrs i'w astudio, dewis llety, dewisiadau ar gyfer cymorth ariannol a chymorth gyrfaol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cefnogi Bwrsariaeth ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal trwy ei chronfa galedi, ac anogir myfyrwyr i gyflwyno cais (dyfarnwyd £46,500 i fyfyrwyr yn 2015/16). Mae'r grŵp hwn o fyfyrwyr hefyd yn cael ei gynrychioli yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol. Darparwyd gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal (ar y cyd â Champws Cyntaf) ar gyfer gwefan newydd, sef Propel, sy'n ceisio cynyddu nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n dilyn addysg uwch. <http://propel.org.uk/Details/university-of-south-wales>.

Mae unigolyn enwebedig, sydd wedi'i leoli yn yr Ardaloedd Cyngor Campws, yn cael ei neilltuo i bob unigolyn sy'n gadael gofal sy'n cofrestru yn y Brifysgol, er mwyn ei gynorthwyo yn ei gampws. Cynorthwyir darpar fyfyrwyr trwy gynnig a derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad mewn perthynas â chyngor ar astudio, llety, cyllid a gyrfaoedd. Mae unigolion cyswllt enwebedig ar gael hefyd ym mhob un o'r meysydd hyn i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hystyried yn grŵp blaenoriaeth.

Dyma rai enghreifftiau cyfredol o gymorth:

- *Y Tîm Cyngor Ariannol Myfyrwyr, sy'n gallu rhoi cyngor ar gyllid, cyllidebu a rheolaeth ariannol, yn ogystal â darparu Bwrsariaeth ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal; gwariwyd £47,000 ar fwrsariaethau yn y maes hwn yn 2015/16.*
- *Y Dyfarniad Grad Edge, sydd ar gael i fyfyrwyr er mwyn iddynt wella eu cyflogadwyedd trwy gefnogi profiad gwaith yn y maes gwaith o'u dewis a darparu gweithdai i wella eu sgiliau.*
- *Gwasanaethau Gyrfaoedd, sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ar lwybrau gyrfaol myfyrwyr ar gyfer y dyfodol yn ystod ac ar ôl graddio.*
- *Llety sydd ar gael 365 niwrnod y flwyddyn ym mhob neuadd gampws er mwyn darparu trefniadau byw diogel drwy gydol eu hastudiaethau.*
- *Clybiau a chymdeithasau'r Undeb Myfyrwyr i annog myfyrwyr i ddilyn diddordeb newydd neu bresennol a gwneud ffrindiau newydd ar yr un pryd.*
- *Cyfleoedd swydd Llysgennad Myfyrwyr; mae'r brifysgol yn cynnig gwaith i fyfyrwyr i gynrychioli'r Brifysgol a chyfrannu at ei phrif ddiwrnodau agored a digwyddiadau marchnata. Cyflogaeth daledig yw hyn ac mae'n cynnwys hyfforddiant a datblygiad drwy gydol y rôl.*
- *Cyngor a chymorth astudio a ddarperir ar gampysau er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad ychwanegol i fyfyrwyr ar waith academaidd, gan gynnwys cyfeirnodi a sgiliau ymchwil.*
- *Gwasanaethau Anabledd a Dyslecsia, sy'n cynnig cymorth i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol ac iechyd meddwl.*
- *Gwasanaethau Cwnsela, sy'n darparu gwasanaethau cwnsela rhad ac am ddim i fyfyrwyr ar y campws os bydd eu hangen.*
- *Cynhelir cynadleddau achos gydag ystod o wasanaethau cymorth myfyrwyr pan fydd angen i'r rhai sy'n gadael gofal gael ymagwedd fwy cydlynol at gymorth.*

Ein Perthynas ag Addysg Bellach

Mae Prifysgol De Cymru wedi darparu AU mewn AB ers bron tri degawd ar draws y rhanbarth a thu hwnt, felly mae gweithio gyda cholegau addysg bellach yn dod yn naturiol i ni. Mae ein partneriaethau addysg bellach presennol (gweler Tabl D ***cysylltiedig***), yn enwedig y Gynghrair Strategol, yn ychwanegu gwerth at y rhanbarth, gan ategu olion traed diwydiant a phwnc craidd ein pedair cyfadran. Bydd cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer niferoedd myfyrwyr yn gweld cynnydd mewn cyfranogiad AU mewn AB o fewn colegau'r Gynghrair Strategol a dilyniant oddi wrthynt, yn rhannol o ganlyniad i brif ffrydio'r ddarpariaeth amser llawn a rhan-amser gynaliadwy a gyflwynwyd yn flaenorol trwy'r fenter UHOVI.

Bydd Prifysgol De Cymru'n parhau i ddatblygu cysylltiadau rhwng cyfadrannau academaidd a phartneriaid AB, gan hwyluso recriwtio uniongyrchol i Brifysgol De Cymru a dilyniant i addysg uwch o fewn ein partneriaid addysg bellach ac oddi wrthynt. Bydd Prifysgol De Cymru'n dangos ymrwymiad parhaus i'r Gynghrair Strategol ac yn parhau i geisio canfod ffyrdd newydd o weithio gyda cholegau partner AB er mwyn sicrhau mwy o gyfranogiad mewn addysg uwch ymhlith y rhai 'anodd eu cyrraedd' yn ein cymunedau.

Un o nodweddion pwysig y Gynghrair Strategol yw'r potensial uwch i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth fanylach o sectorau a chryfderau pwnc y sefydliadau unigol trwy ddatblygu strategaethau a mentrau strategol ar y cyd, rhannu gwybodaeth ac adnoddau dysgu, rhannu datblygiad staff ac ymagweddau at farchnata a hyrwyddo. Mae hyn nid yn unig yn ychwanegu gwerth at y sefydliadau yn y Gynghrair ond hefyd eu dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae hefyd yn cynnig cyfle i siarad â diwydiant ag un llais, a derbyn adborth.

Mae Prifysgol De Cymru'n parhau i fod yn ymrwymedig i dwf AU mewn AB ac ehangu mynediad at AU yn lleol trwy ein rhwydwaith Cynghrair Strategol. Rydym yn parhau i recriwtio nifer sylweddol o fyfyrwyr lle y darperir AU yn lleol. Mae gan y Gynghrair Strategol 1,417 o fyfyrwyr amser llawn a 1,232 o fyfyrwyr rhan-amser (tra bod gan Golegau yng Nghymru nad ydynt yn rhan o'r gynghrair 176 o fyfyrwyr amser llawn a 305 o fyfyrwyr rhan-amser). Lle y bo'n briodol, rydym hefyd yn cyfeirio dilyniant ar y campws i Brifysgol De Cymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnig rhanbarthol lleol arwyddocaol. Symudodd oddeutu 284 o fyfyrwyr ymlaen i L6 Prifysgol De Cymru yn 2016-17 ac rydym yn cefnogi hyn gyda bwrsariaeth ddilyniant £500 a digwyddiadau wedi'u teilwra mewn Cyfadrannau.

Rydym hefyd yn darparu cymorth penodol i grwpiau eraill, gan gynnwys:

- *Cynorthwyo'r Rhai sy'n Gadael Gofal o bob rhan o'r rhanbarth*
- *Cynorthwyo Tasglu'r Cymoedd i archwilio llwybrau i'r Proffesiynau Iechyd a llwybrau nyrsio rhan-amser*
- *Mae myfyrwyr y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg yn cefnogi rhaglen hyfforddi a mentora ar gyfer myfyrwyr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.*

Mae mentrau eraill a gynlluniwyd i helpu i hyrwyddo AU mewn AB yn cynnwys:

- *Prif ffrydio modiwlau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl UHOVI yng ngweithgarwch y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg ac ymgysylltu â materion iechyd meddwl o UHOVI a'r maes Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.*

Datblygu "tudalennau glanio" wedi'u teilwra ar ein gwefan er mwyn i fyfyrwyr colegau partner wella eu profiad o AU a'u hymgysylltiad â hi [18]

- *Cynhyrchu canllaw cyrsiau Colegau Partner newydd.*
- *Parhau i gynllunio ein cynnig AU mewn AB, gan weithio gyda'n pum partner Cynghrair i gynllunio ein cynnig rhanbarthol gyda'n gilydd.*
- *Parhau i gefnogi datblygiad cynnig AU yng Nghampws newydd Aberdâr Coleg y Cymoedd.*
- *Parhau i gynnig cyfleoedd darparu a dilyniant lleol o Ardal Ddysgu Blaenau Gwent Coleg Gwent.*

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad | Ardal Wybodaeth Casnewydd

Mae Prifysgol De Cymru a Choleg Gwent (*ar y cyd â Chyngor Dinas Casnewydd*) wedi cytuno i archwilio datblygu *Ardal Wybodaeth Casnewydd* a fydd yn ceisio:

[18] http://pcstudents.southwales.ac.uk/

- *Gweithredu fel sbardun i gynyddu dyheadau addysgol, cyrhaeddiad addysgol a chyfranogiad mewn AB ac AU yng Nghasnewydd ac, yn ehangach, ar draws y rhanbarth.*

- *Darparu ar gyfer y rhai hynny sy'n dibynnu ar AB ac AU a ddarperir yn lleol am resymau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd (trwy ddilyniant di-dor i AB ac AU i'r rhai sy'n symud o addysg orfodol a chyfleoedd newydd i'r rhai sy'n dychwelyd i astudio fel myfyrwyr aeddfed).*

- *Cynyddu i'r eithaf y cyfraniad y gall twf AB ac AU yng Nghasnewydd ei wneud at yr economi leol, trwy flaenoriaethu cyflogadwyedd ei graddedigion a chynyddu'r gronfa lafur â sgiliau uwch.*

- *Sicrhau bod y ddarpariaeth AB ac AU yn bodloni anghenion sgiliau a datblygu cyflogwyr ac asiantaethau economaidd eraill sy'n ymwneud ag adfywio Casnewydd.*

- *Cynyddu i'r eithaf y cyfraniad y gall twf AB ac AU yng Nghasnewydd ei wneud at hybu cydlyniad cymdeithasol ac integreiddio cymunedol.*

- *Datblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o gyflwyno addysg a hyfforddiant i bobl leol mewn ffordd sy'n cydnabod cymeriad penodol busnes lleol ac anghenion amrywiol cymunedau lleol.*

Bwriedir i weithgareddau cychwynnol ddechrau yn 2017/18, ac mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i ddatblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o gyflwyno addysg a hyfforddiant i bobl leol mewn ffordd sy'n cydnabod cymeriad penodol busnes lleol ac anghenion amrywiol cymunedau lleol.

Cymorth i Lwyddo

Rydym yn ymgysylltu â'n myfyrwyr fel partneriaid, gan gydnabod eu bod yn dod o gefndiroedd amrywiol. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir (myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel a myfyrwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig) yn ystod eu hastudiaethau. Mae'r canlynol yn amlinellu'r gweithgareddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr Prifysgol De Cymru i gynyddu eu cyfranogiad a'u llwyddiant mewn addysg uwch.

Mesurau Cysylltiedig y Cynllun Ffioedd a Mynediad i ddarparu:

iv. **cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw, dilyniant a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr**

v. **gwella'r profiad addysg uwch ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch**

vi. **darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau**

vii. **darparu cymorth academaidd a lles o ansawdd uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch**

viii. **cynorthwyo grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudio pellach**

Buddsoddiad y CFfM = £5.87 miliwn

Targedau'r CFfM

TCFfM7 Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, gostyngiad yng nghanran y myfyrwyr israddedig amser llawn nad ydynt mewn addysg uwch mwyach yn dilyn y flwyddyn fynediad o 12.1% yn 2016/16 i 9% yn 2018/19

TCFfM 8	Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, canran myfyrwyr amser llawn Prifysgol De Cymru y disgwylir iddynt ennill gradd = 1% yn uwch na meincnod HESA
TCFfM 9	Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru a gynorthwyir trwy fwrsariaethau ac ysgoloriaethau (gan gynnwys ysgoloriaethau ôl-raddedig, bwrsariaeth ddilyniant ar gyfer myfyrwyr sy'n symud o AU mewn AB i Brifysgol De Cymru, ychwanegiadau ac ysgoloriaethau rhagoriaeth) a chyllid caledi = 1,500
TCFfM 10	Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru a gynorthwyir gyda "chymorth ariannol arall", yn enwedig "costau ychwanegol astudio" = 2,200
TCFfM 11	Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, bydd canran y bobl ifanc sy'n dilyn gradd gyntaf amser llawn ym Mhrifysgol De Cymru sy'n byw yn y Deyrnas Unedig sy'n dod o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR3) nad ydynt mewn AU mwyach yn perfformio'n well na'r meincnod o 1% islaw'r meincnod
TCFfM 12	Cymorth Lles – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru a gynorthwyir gyda chyngor a sgiliau rheoli arian = 1,300
TCFfM 13	Cyfrwng Cymraeg – nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (5+ o gredydau) = 200
TCFfM 14	Cyfrwng Cymraeg – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (40+ o gredydau) = 175
TCFfM 15	Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Y Rhai sy'n Gadael Gofal – yn 2018/19, nifer y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol De Cymru = 60

Hefyd TCFfM 21 (gweler isod) mewn perthynas â chyflogadwyedd

Cadw, Dilyniant a Llwyddiant

Mae hanes Prifysgol De Cymru o gyflawniad mewn perthynas â chadw, dilyniant a chwblhau wedi bod yn gwella'n gyson yn ystod y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, mae gwelliant ychwanegol yn y meysydd hyn yn flaenoriaeth strategol, ac mae'r rhain yn agweddau allweddol ar ein Cynllun Profiad Myfyrwyr. Amlinellir ein gwaith yn y maes hwn yn fanylach yn y wybodaeth Hyrwyddo Addysg Uwch isod.

O ran myfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir, mae'r newid o astudiaethau uwchradd/trydyddol i astudiaethau Prifysgol *"yn newid cymdeithasol arwyddocaol, a allai fod yn ddwysach os yw'r myfyriwr yn aeddfed, y cyntaf yn ei deulu i fynd i'r brifysgol, neu'n perthyn i grŵp ethnig a dangynrychiolir ym mhoblogaeth y brifysgol"*[19] . Rydym wedi ymrwymo i wella ein hymagwedd at sefydlu myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn barhaus, gan helpu i greu cymunedau dysgu llwyddiannus ar gyrsiau, datblygu ymdeimlad o berthyn i grŵp ac fel unigolyn, a dechrau taith yr unigolyn gan ddefnyddio'r offeryn 'Paratoi i Lwyddo'.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i amlygu myfyrwyr sydd mewn perygl o fethiant academaidd neu adael fel y gellir ymyrryd yn gynharach. Bydd hyn yn ystyried ffactorau fel nodweddion gwarchodedig hefyd. Bydd cyfranogiad y Brifysgol mewn Dadansoddeg Dysgwyr JISC yn dechrau darparu data a gwybodaeth ategol i gynorthwyo â hyn yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad | USW1World

[19] *A.R.J. Briggs, J. Clark ac I. Hall (2012): Building bridges: understanding student transition to university, Quality in Higher Education*

Mae'r prosiect USW1World yn annog holl fyfyrwyr Prifysgol De Cymru i integreiddio'n gymunedol ac yn ddiwylliannol. Mae hefyd yn ceisio hyrwyddo symudedd myfyrwyr (*i mewn a thuag allan*) a chynyddu ymwybyddiaeth o'r buddion sylweddol sy'n gallu deillio o hyn.

Yr athroniaeth sydd wrth wraidd USW1World yw bod gan fyfyrwyr sydd ag ymdeimlad eglur o gymuned a lle gyfle gwell o lwyddo'n bersonol ac yn academaidd. Mae'n bwysig iawn i ni fod holl fyfyrwyr Prifysgol De Cymru yn cael cyfle i gymysgu a dysgu gyda'i gilydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ogystal ag ynddi, a'u bod yn cael cyfleoedd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned leol. Yn ogystal, mae'r gallu i gyfathrebu'n dda â phobl o bob rhan o'r byd yn sgìl sy'n werthfawr yn bersonol ac yn fanteisiol ym myd gwaith - yn enwedig gan fod llawer o gwmnïau bellach eisiau i'w cyflogeion fod yn Ddinasyddion Byd-eang go iawn.

Nod y prosiect USW1World yw rhoi cyfle i'n myfyrwyr ddatblygu'r sgiliau hyn, cael ymdeimlad go iawn o'u lle yng nghymuned Prifysgol De Cymru ac, wrth gwrs, cael hwyl a gwneud ffrindiau ar yr un pryd.

Profiad Myfyrwyr

Mae Prifysgol De Cymru'n ceisio darparu profiad rhagorol i'w holl fyfyrwyr. Mae ein strategaeth, sef *Y Cynllun Profiad Myfyrwyr*, yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

1. *Mae'r cwrs yn ganolog i brofiad myfyrwyr.*
2. *Dylai dysgu ystyried anghenion a phrofiadau myfyrwyr unigol.*
3. *Mae cydlyniad yn bwysicach na dewis wrth gynllunio cwricwlwm. Mae myfyrwyr yn gweithio'n well pan allant wneud cysylltiadau rhwng profiadau dysgu mewn cymunedau dysgu cydlynol.*
4. *Mae addysgeg yn arwain yr amgylchedd galluogi (e.e. TGCh, ystadau).*
5. *Mae addysgeg yn canolbwyntio ar gyflogaeth a symudedd cymdeithasol.*

Mae dysgu wedi'i seilio ar berthnasoedd effeithiol - rhyngweithio anffurfiol a "sgyrsiau coridor", yn ogystal â deialog ffurfiol. Mae addysgu effeithiol, sy'n hwyluso canlyniadau myfyrwyr, yn hanfodol. Fodd bynnag, mae'r maes affeithiol, gan gynnwys teimladau a hunaneffeithiolrwydd dysgwyr, yr un mor bwysig, yn enwedig yng nghyd-destun ein hanes balch o ehangu mynediad. Oherwydd bod Prifysgol De Cymru'n recriwtio llawer o fyfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel [20], mae cyfran sylweddol o'r myfyrwyr a dderbyniwn yn dangos diffyg hyder, cyfalaf cymdeithasol a dyhead, sydd oll yn gallu effeithio ar berfformiad a chyflogadwyedd dilynol.

Gweler Hyrwyddo Addysg Uwch i gael mwy o fanylion am y gwaith sy'n cael ei wneud i wella profiad ein myfyrwyr.

Ymgysylltu â Myfyrwyr

Mae'r Siarter Myfyrwyr (***wedi'i hatodi*** yn Atodiad A), a ddatblygwyd gan y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr, yn cynnwys ymrwymiad i gynnig cwnsela, cyngor ar iechyd a lles, cymorth ag anableddau a dysgu, llety, cyllid, a gyrfaoedd.

Mae'r Undeb Myfyrwyr hefyd yn cynnig gwasanaeth lles cyfrinachol sy'n annibynnol ar y Brifysgol. Gall myfyrwyr geisio cyngor ar faterion a rheoliadau academaidd, tai, iechyd a materion ariannol.

Gweler Adran Pump (Tudalen 40) i gael mwy o wybodaeth am "Ein Hymrwymiad i Fyfyrwyr".

[20] Yn 2015/16, roedd 31% o fyfyrwyr Prifysgol De Cymru a oedd yn byw yng Nghymru yn dod o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac roedd 48% o'r myfyrwyr a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig yn dod o "ardaloedd cyfranogiad isel"

Cymorth Academaidd

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyngor ynglŷn ag aseiniadau, gwaith cwrs neu arholiadau, neu unrhyw beth arall y gallai myfyriwr deimlo ei fod yn effeithio ar ei berfformiad academaidd, yn ogystal â datrysiadau ymarferol sy'n gallu helpu. Mae cymorth penodol ar gael hefyd ar gyfer mathemateg, ystadegau a rhifedd. Er nad yw'r gwasanaethau hyn ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir yn unig, mae tystiolaeth wedi dangos mai nhw yw'r rhai sy'n eu defnyddio amlaf. Fel arfer, mae'r myfyrwyr hyn yn meddu ar y gallu i lwyddo, ond mae angen "help llaw cychwynnol" arnynt i sefydlu rheolaeth, hyder a pharodrwydd i ymdopi â thechnegau ac amgylcheddau dysgu newydd.

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad | Mentora Myfyrwyr ar gyfer Cymorth rhwng Cymheiriaid

Nod cynllun Mentora Myfyrwyr Prifysgol De Cymru yw:

- *Sicrhau bod y newid i'r brifysgol ar gyfer myfyrwyr newydd, yn enwedig y rhai sy'n dod o gefndiroedd a dangynrychiolir, mor rhwydd a didrafferth â phosibl;*
- *Annog myfyrwyr newydd i gyfarfod â myfyrwyr presennol o'r un adran neu gyfadran fel y gallant integreiddio'n gyflym i fywyd y brifysgol;*
- *Sicrhau bod myfyrwyr newydd yn gwybod ble i fynd i gael gwybodaeth a chymorth, a sicrhau eu bod yn profi amgylchedd cefnogol ac anogol;*
- *Cynorthwyo myfyrwyr i ymgysylltu'n gyflym â'u hastudiaethau trwy leihau ffactorau sy'n achosi straen; a*
- *Galluogi mentoriaid myfyrwyr i ddatblygu neu wella sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i gyflogaeth a llwybrau eraill bywyd.*

Mae ein mentoriaid myfyrwyr yn wirfoddolwyr hyfforddedig. Gall myfyrwyr newydd ofyn cwestiynau i'w mentor trwy neges e-bost neu Facebook, hyd yn oed cyn iddynt gyrraedd y campws. Ar ôl cofrestru, gall mentoriaid a'r rhai maen nhw'n eu mentora gyfarfod wyneb yn wyneb o bryd i'w gilydd ac aros mewn cysylltiad dros y ffôn a thrwy e-bost.

Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr

Mae ymchwil[21] wedi canfod er nad cymorth ariannol yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol wrth benderfynu gwneud cais am le mewn addysg uwch neu ddewis rhwng sefydliadau, mae canfyddiadau sefydliadau'n awgrymu bod lleiafrif mawr o fyfyrwyr yn teimlo bod cymorth ariannol yn effeithio ar eu penderfyniad i ymuno ag addysg uwch a dewis cyrchfan.

Yn flaenorol, mae Prifysgol De Cymru (gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru) wedi buddsoddi gwariant y Cynllun Ffïoedd ar ffurf bwrsariaethau, cronfeydd caledi a chymorth ariannol arall, e.e. "costau ychwanegol astudio", er mwyn sicrhau nad yw ystyriaethau ariannol yn rhwystro mynediad, dilyniant neu lwyddiant. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r buddsoddiad hwn yn 2018/19, er mwyn helpu i sicrhau bod ystod gynhwysfawr o fwrsariaethau a chronfeydd caledi ar gael i fyfyrwyr y mae arnynt eu hangen, a fydd yn parhau i gael eu rheoli a'u hyrwyddo gan ein Tîm Cyngor Ariannol Myfyrwyr sydd wedi cael clod yn genedlaethol[22].

Rhagwelir y bydd cyfanswm o £5.46 miliwn o gymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr yn 2018/19 ac y bydd yn helpu 6,800 o fyfyrwyr. Bydd natur y pecynnau cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr yn cael ei hailystyried pan fydd mwy o fanylion ar gael ynglŷn ag effaith y newidiadau i gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru.

---

21 *"What do we know about the impact of financial support on access and student success?" Review of the research and evaluation of the impact of institutional financial support on access and student success. Adroddiad i'r Swyddfa Mynediad Teg (OFFA) gan Nursaw Associates (Mawrth 2015).*

22 *Gwobr Partneriaeth Orau 2014, y Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr*

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad | "Costau Ychwanegol Astudio"

Bydd Prifysgol De Cymru'n parhau i dalu "costau ychwanegol astudio" rhesymol a amlygir gan gyfadrannau trwy fuddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad. Yn 2018/19, amcangyfrifir y bydd y costau hyn ar draws y Brifysgol yn dod i gyfanswm o bron i £1 filiwn ac yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau gan gynnwys ffïoedd achredu a chofrestru proffesiynol, teithiau maes, offer arbenigol a gwisgoedd unffurf / cit chwaraeon.

Cyflogadwyedd

Mae gwasanaeth gyrfaoedd Prifysgol De Cymru'n darparu amrywiaeth o wasanaethau, o gyngor ac arweiniad ar ddewisiadau gyrfaol i astudio ôl-raddedig, profiad gwaith, cymorth ymarferol i chwilio am waith, gweithio neu astudio dramor, a mwy. Mae'r cynllun Grad Edge yn parhau i fod yn ganolog i'n hymdrechion i hybu cyflogadwyedd a pharatoi myfyrwyr i ddechrau eu gyrfaoedd graddedig. Wedi'i seilio ar brofiad gwaith ac ymgysylltu â chyflogwyr, mae'n rhoi'r cymysgedd priodol o wybodaeth arbenigol a phrofiad ymarferol i fyfyrwyr er mwyn iddynt wneud argraff dda ar gyflogwyr graddedigion. Gall myfyrwyr ar draws ein rhwydwaith colegau partner AB ymgymryd â dyfarniad Grad Edge ac elwa ohono hefyd.

Yn ogystal â'r gweithgarwch hwn, mae 'Cynllun Cyflawni trwy Brofiad Gwaith' GO Wales[23], sef partneriaeth rhwng CCAUC a phrifysgolion Cymru, yn darparu profiad gwaith hyblyg wedi'i deilwra i fyfyrwyr. Bydd 400 o fyfyrwyr o'r Brifysgol yn cael eu cynorthwyo trwy'r gweithgarwch hwn hyd at fis Mawrth 2019. Mae'r cynllun wedi'i lunio i gynorthwyo myfyrwyr i gael profiadau sy'n amrywio o weithgarwch arsylwi i brofiad gwaith taledig o hyd at bedair i chwe wythnos. Mae'n agored i fyfyrwyr sydd heb unrhyw brofiad gwaith neu ychydig iawn o brofiad gwaith ac sy'n anabl, o gefndir BME, o gefndir gofal, yn ofalydd neu'n dod o ardal cyfranogiad isel. Mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo trwy Wasanaethau Gyrfaoedd y Brifysgol hefyd.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae Prifysgol De Cymru hefyd wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o glinigau ar gyfer y cyhoedd sy'n darparu profiadau dysgu wedi'u hefelychu i fyfyrwyr, fel y Clinig Cyngor Cyfreithiol ac Ariannol a sefydlwyd yng Nghampws Caerdydd gan Ysgol y Gyfraith, Cyfrifyddu a Chyllid Prifysgol De Cymru. Mae'r clinigau hyn yn darparu mynediad at gleientiaid a sefyllfaoedd go iawn fel bod myfyrwyr yn gallu rhoi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ar waith. Rydym wedi gweld bod myfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir wedi elwa'n arbennig o'r cyfle i ddatblygu hyder mewn amgylchedd gwaith "diogel" cyn graddio.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau yn ymwneud â chyflogadwyedd ar gael yn yr adran ganlynol ar "Hyrwyddo Addysg Uwch".

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad | Clinig Cyngor Cyfreithiol ac Ariannol

Mae'r Clinig Cyngor Cyfreithiol ac Ariannol yng Nghampws Caerdydd yn rhan o Ysgol y Gyfraith, Cyfrifyddu a Chyllid Prifysgol De Cymru. Mae'r Clinig yn cael ei gynnal gan fyfyrwyr-wirfoddolwyr ail a thrydedd flwyddyn hyfforddedig, sy'n gweithio dan oruchwyliaeth cyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n ymarfer. Mae'n cynnig apwyntiadau rhad ac am ddim i'r cyhoedd lle mae myfyrwyr yn cyfweld ac asesu cleientiaid ac yn llunio cyngor cyfreithiol, mewn meysydd fel materion cyflogaeth, tai, dyledion, teulu a chontract. Rôl y myfyrwyr yw helpu pobl i drosi eu pryderon yn gategorïau y gellir eu hadnabod yn gyfreithiol ac esbonio cysyniadau a phrosesau cyfreithiol anghyfarwydd.

[23] *http://www.gowales.co.uk/main.html*

Mae'r Clinig yn boblogaidd iawn ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig nid yn unig wrth ddarparu profiad gwaith hollbwysig i'n myfyrwyr, ond hefyd wrth ddarparu mynediad at gyngor cyfreithiol mewn amgylchiadau lle nad yw cymorth cyfreithiol ar gael.

Yr Iaith Gymraeg

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol wedi cael ei datblygu'n raddol ac yn strategol, gan adlewyrchu'r galw gan fyfyrwyr a diwydiant, ac mewn ymateb i strategaethau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Fel yr amlygwyd mewn adroddiadau blaenorol, disgwyliwyd i nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg leihau yn ystod 2016-17 o ganlyniad i newidiadau i'r staff a strwythur cyrsiau. Fodd bynnag, mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn ystod y 18 mis diwethaf i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol ac ymestyn ein cynnig ar draws ystod eang o gyrsiau ar draws y Brifysgol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gyflogadwyedd – un o amcanion craidd Cynllun Academaidd Prifysgol De Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac sydd hefyd yn hanfodol er mwyn creu gweithlu dwyieithog i fynd i'r afael â gofynion Safonau'r Gymraeg a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu â chyflogwyr ledled de-ddwyrain Cymru ac wedi trefnu sesiynau a gweithdai cyflogadwyedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o fuddion dwyieithrwydd, yn enwedig o ran sgiliau a chyflogadwyedd. Rydym wedi llwyddo i gynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfadran, ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Disgwyliwn gynnydd graddol yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2018-19, gan adlewyrchu amcan y Coleg o 'sicrhau bod darpariaeth academaidd ar gyfer myfyrwyr yn cael ei chyflwyno mewn ffordd gost-effeithiol mewn cynifer o ddisgyblaethau â phosibl' yn erbyn meincnod o 40/80 o gredydau.

Bydd prosiect ymchwil, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol De Cymru, yn cael ei gynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 i bennu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Grŵp Prifysgol De Cymru; mesur y galw gan ddisgyblion mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru; ac amlygu'r angen am gyflogeion dwyieithog ar draws y rhanbarth. Bydd canlyniadau'r prosiect yn caniatáu i'r Brifysgol a'r Coleg bennu'r blaenoriaethau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf a chynllunio'r ddarpariaeth yn unol â hynny.

Hyrwyddo Addysg Uwch

Bydd amcanion y Brifysgol o ran mynd i'r afael â hyrwyddo addysg uwch ar gyfer 2018/19 yn canolbwyntio ar:

1. **Sicrhau bod profiad ein myfyrwyr o addysg uwch yn werth chweil, fel y gwelir trwy welliannau mewn perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, gan gynnwys gwelliannau mewn bodlonrwydd myfyrwyr ar weithgareddau'r Undeb Myfyrwyr**
2. **Sicrhau bod gan ein myfyrwyr ystod o sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth yn y dyfodol pan fyddant yn ein gadael, fel y gwelir gan ganlyniadau cyflogaeth a chyflogaeth graddedigion a fesurir gan yr arolwg Canlyniadau Graddedigion**
3. **Cyflawni gofynion y Cynllun Academaidd trwy sicrhau bod pob myfyriwr yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith er mwyn cyflawni cyfres gytunedig o Briodoleddau Graddedigion Prifysgol De Cymru.**
4. **Hyrwyddo AU yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol, fel y gwelir trwy fwy o ymwybyddiaeth o frand a sefydlu partneriaethau**
5. **Sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i ymsefydlu mewn gweithgarwch, yn enwedig trwy Swyddogion yr Undeb Myfyrwyr a thrwy systemau cynrychiolaeth, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar waith mewn AB.**

Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Prifysgol De Cymru yw

"Y Brifysgol o ddewis yng Nghymru a thu hwnt ar gyfer myfyrwyr, sefydliadau a chymunedau sy'n gwerthfawrogi addysg sy'n canolbwyntio ar alwedigaethau ac ymchwil gymhwysol sy'n darparu datrysiadau i broblemau sy'n effeithio ar gymdeithas a'r economi".

Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar themâu dyhead, cysylltioldeb, priodoleddau graddedigion ac ymagwedd at ddysgu sy'n canolbwyntio ar weithredu a datrys problemau.

Mae ein gweledigaeth yn cyd-fynd yn llwyr â dyheadau Llywodraeth Cymru i brifysgolion:

- ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru;
- gwella profiad myfyrwyr ac ansawdd dysgu ac addysgu;
- cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru;
- hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol; a
- chynyddu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar ymgeiswyr.

Profiad Myfyrwyr

Yn y bôn, er mwyn i Brifysgol De Cymru barhau i fod yn sefydliad llwyddiannus a chynaliadwy, mae'n rhaid i ni gynyddu dyheadau, denu myfyrwyr i'r cyrsiau iawn a darparu dysgu ac addysgu rhagorol. Yn y pen draw, mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod myfyrwyr yn dyfalbarhau, gan gwblhau eu hastudiaethau a symud ymlaen i swyddi gwych a gyrfaoedd tymor hir. Mae profiad myfyrwyr a "thaith y myfyriwr" wrth wraidd yr hyn a wnawn, a llwyddiant myfyrwyr yw'r ffon fesur eithaf y cawn ein barnu yn unol â hi. Amlinellir manylion llawn ein hymagwedd at wella profiad myfyrwyr yng Nghynllun Profiad Myfyrwyr Prifysgol De Cymru (2016)[24]. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r gwaith allweddol sy'n cael ei wneud i roi'r Cynllun Profiad Myfyrwyr ar waith trwy saith maes gwaith allweddol.

[24] *Y Cynllun Profiad Myfyrwyr* http://celt.southwales.ac.uk/sep/

Mesurau Cysylltiedig y Cynllun Ffioedd a Mynediad er mwyn:

i. **gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad myfyrwyr**

ii. **darparu addysg uwch gynaliadwy**

Buddsoddiad y CFfM = £4.32 miliwn

Targedau'r CFfM

TCFfM16	Mesur 'Ymdeimlad o Gymuned' myfyrwyr – Gosod targedau ar gyfer Cyfadrannau ac Ysgolion yn erbyn y tri chwestiwn perthnasol yn Arolwg Myfyrwyr Mewnol Prifysgol De Cymru o welliant 5% i 84% erbyn 2018/19 o feincnod 2016/17.
TCFfM17	Mesur profiad cyntaf myfyrwyr – Cynnal perfformiad 2016/17 yn yr Arolwg Profiadau Cynnar lle'r oedd 99% o fyfyrwyr yn fodlon ar eu profiad cyntaf o'r Brifysgol.
TCFfM18	Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr – yn 2018/19, sgôr gyfartalog dreigl tair blynedd Prifysgol De Cymru ar gyfer cwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol' yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr = 84%[25]
TCFfM19	**Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr – yn 2018/19, bydd bodlonrwydd myfyrwyr Prifysgol De Cymru ar Undeb y Myfyrwyr wedi gwella 5% i 65%.**
TCFfM20	Ansawdd Dysgu ac Addysgu – yn 2018/19, staff academaidd Prifysgol De Cymru a chanddynt statws Cymrawd yr Academi Addysg Uwch = 55%[26]
TCFfM21	Cynrychiolaeth Myfyrwyr/Llais Myfyrwyr – yn 2018/19, bydd gan 95% o'r holl gyrsiau israddedigion gynrychiolydd myfyrwyr, a bydd gan 100% ohonynt rai erbyn 2019/20
TCFfM22	Cynrychiolaeth Myfyrwyr/Llais Myfyrwyr – Cynyddu nifer y cynrychiolwyr cwrs ar gyfer cyrsiau AB mewn AU i gyrraedd lefelau'r Brifysgol ehangach erbyn 2020

Cymunedau Dysgu

Mae'r themâu hunaniaeth, cymuned a pherthyn yn codi'n fynych wrth drafod profiad myfyrwyr. Mae astudio yn y brifysgol yn daith emosiynol yn ogystal â deallusol, sy'n cael ei ffurfio gan berthnasoedd y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, trwy weithgarwch academaidd a chymdeithasol. Mae cyfuniad o ymgysylltiad academaidd a chymdeithasol da yn creu'r cyd-destun ar gyfer perthyn a llwyddo. Ar yr ochr academaidd, mae hyn yn golygu staff sy'n adnabod eu myfyrwyr, sydd â diddordeb ynddynt ac sy'n monitro eu cynnydd yn weithredol, sy'n amlwg yn gwerthfawrogi addysgu, sydd ar gael iddynt ac sy'n gwerthfawrogi / ceisio ymadweithio, ac sy'n croesawu eu cyfraniad ac yn derbyn beirniadaeth, ond hefyd yn gosod ffiniau ac yn herio ymddygiad a disgwyliadau myfyrwyr (What Works, HEA 2012). Yn fyr, ymddygiad proffesiynol a dynol da. Locws yr hunaniaeth honno a'r perthnasoedd hynny yw'r cwrs, lle mae perthnasoedd â chyfoedion ac ymadweithio ystyrlon â staff academaidd yn datblygu ddwysaf.

Bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Parhau i ymsefydlu pwyslais ar y cwrs fel uned allweddol adolygu – ymagwedd sydd wrth wraidd y cynllun profiad myfyrwyr.* Mae perfformiad cwrs yn cael ei fesur bellach trwy ganolbwyntio ar fetricsau allweddol ceisiadau, cofrestriadau, cadw, profiad a chyflogaeth, yr

[25] *Hefyd, Dangosydd Perfformiad Critigol #2 a Tharged 3.2 Cynllun Academaidd Prifysgol De Cymru*
[26] *Hefyd, Targed 3.5 y Cynllun Academaidd*

ychwanegir atynt gan ddatblygiadau mewn deallusrwydd busnes ar draws y brifysgol. Cymhwysir hyn trwy broses Adolygu Portffolio flynyddol.

- *Parhau i ddatblygu ein rhith-amgylchedd dysgu - Blackboard - a llawlyfrau cwrs er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ragorol sy'n canolbwyntio ar gyrsiau a golygfeydd lefel cwrs (e.e. o amserlenni asesu) ar gael i fyfyrwyr.*
- *Parhau i fonitro adborth gan fyfyrwyr trwy ein hofferyn arolygu mewnol, sef Loop. Mae Loop yn amlygu meysydd sylwadau cadarnhaol neu negyddol gan fyfyrwyr ynglŷn â'u profiad o'u cwrs. Archwilir y maes cymuned trwy nifer o gwestiynau ac mae'r data sy'n codi o'r system yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn gyson gan Arweinwyr Cwrs, Rheolwyr Pwnc, Penaethiaid Ysgol a'r Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr.*
- *Erbyn 2018/19, bydd system y Brifysgol ar gyfer Hyfforddiant Academaidd Personol ar waith gyda pherthnasoedd eglur wedi'u sefydlu rhwng staff a myfyrwyr i fonitro ymgysylltiad, dilyniant a chyflawniad myfyrwyr.*

Ymarferwyr Ysbrydoledig (Prosiect y Cynllun Profiad Myfyrwyr)

Mae'n rhaid i staff academaidd allu ysgogi'r meddwl a chreu profiadau dysgu symbylol, yn ogystal â chynorthwyo myfyrwyr yn weithredol a dangos brwdfrydedd tuag at eu pwnc. Mae'r gallu i weithio mewn tîm a chydweithredu yn nodweddion allweddol ar gyfer academyddion Prifysgol De Cymru hefyd. Bydd gan wahanol aelodau staff wahanol broffiliau, ond dyma'r ffactorau y mae ein myfyrwyr yn dweud wrthym eu bod yn bwysig.

Bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Datblygu ymhellach drefniadau cyn-sefydlu sy'n canolbwyntio ar y cwrs er mwyn creu cymuned cyn i'r myfyrwyr gyrraedd a datblygu ymyriadau effeithiol yn ystod cyfnodau pontio o un lefel i'r llall, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithgareddau ailsefydlu neu ymgysylltu yn ystod gwyliau. Yn arbennig, canolbwyntio ymdrechion ar grwpiau a dangynrychiolir a grwpiau perygl uchel trwy weithgarwch sefydlu a phontio wedi'i dargedu, a rhoi data cynhwysfawr ac amserol i gyfadrannau ar gyfraddau cadw er mwyn iddynt fonitro effaith ymyriadau.*
    - Un o feysydd Gweithredu'r Cynllun Profiad Myfyrwyr yw 'Dechrau Arni'. Mae'r maes hwn ar ei gam cyntaf ar hyn o bryd, gan wneud gwelliannau i brosesau sefydlu myfyrwyr. Bydd y prosiect yn darparu taith ddi-dor o gadarnhau lle astudio i gofrestru i'r cyfnod sefydlu, a bydd gweithgarwch sefydlu'n cael ei ymestyn fesul cam dros gyfnod hwy nad yw wedi'i gyfyngu i wythnosau cyntaf y tymor. Mae gwelliannau'n cael eu gwneud i'r wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ar y we. Yn ystod 2018/19, disgwylir i'n hymagwedd at sefydlu gael ei datblygu ymhellach a bydd pwyslais ar gamau eraill taith y myfyriwr hefyd.

- *Parhau i ddatblygu 'Hyfforddiant / Tiwtora Personol' sy'n canolbwyntio ar adolygu llwyddiant dysgwyr o fewn cwrs (a fynegir trwy farciau, graddau ac adborth ar fodiwlau ar draws rhaglen) a'r tu allan iddo (a fynegir trwy ymgysylltu ehangach, e.e. â Grad Edge), gyda chymorth a ddarperir gan academyddion allweddol sy'n gyfrifol am ddilyn y dysgwr trwy ei astudiaethau.*
    - Bydd Hyfforddwr Personol yn cael ei neilltuo i bob myfyriwr israddedig amser llawn ar ddechrau blwyddyn academaidd 2017/18. Mae canllawiau a deunyddiau hyfforddi wedi cael eu datblygu yn rhan o gynllun peilot a gynhaliwyd yn ystod 2016/17, a bydd prosiect Dadansoddeg Dysgwyr JISC yn darparu gwybodaeth amser real i Hyfforddwyr Personol am ymgysylltiad a chyflawniad myfyrwyr, gan olygu y bydd modd trafod llwyddiant dysgwyr. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno ymhellach (i'r holl fyfyrwyr blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn, yn 2018/19).

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad | Cymrodoriaethau'r Academi Addysg Uwch (HEA)

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i gyflawni dysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf ar gyfer ei myfyrwyr. Un arwydd allanol o ansawdd y staff sy'n ymwneud ag addysgu a chefnogi dysgu yw cydnabyddiaeth fel Cymrawd yr Academi Addysg Uwch.

Trwy Fframwaith Safonau Proffesiynol Prifysgol De Cymru (*sy'n cyd-fynd â Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF)*)[27], nod Prifysgol De Cymru yw cynorthwyo staff yn y Brifysgol a'r rhai sy'n addysgu dyfarniadau Prifysgol De Cymru mewn colegau partner AB i ddangos:

- *Profiad dysgu, addysgu ac asesu o ansawdd uchel i bob myfyriwr ar draws Grŵp Prifysgol De Cymru*
- *Creadigrwydd, arloesedd a datblygiad proffesiynol parhaus mewn dysgu, addysgu ac asesu ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni, a'r rhai hynny sy'n cefnogi dysgu*
- *Tystiolaeth o broffesiynoldeb a rhagoriaeth mewn ymarfer academaidd*

Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at roi statws Cymrawd Cyswllt, Cymrawd, Uwch Gymrawd neu Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, fel y manylir yn Strategaeth Dysgu ac Addysgu Prifysgol De Cymru 2013-2017.

Cadw a Llwyddo (Prosiect y Cynllun Profiad Myfyrwyr)

Nid yw profiadau myfyrwyr yn dod i ben yn yr ystafell ddosbarth; yn hytrach, maen nhw'n byw trwy ymadweithio â gwasanaethau proffesiynol, timau cyngor, staff ystadau a'r gweithredoedd beunyddiol o garedigrwydd a gwasanaeth a wneir yn seiliedig ar ein gwerthoedd. Mae'r ffordd y caiff pobl eu trin yn yr holl feysydd hyn yn creu darlun cyffredinol o fywyd ym Mhrifysgol De Cymru ac yn cefnogi cyfraddau cadw a llwyddo. Mae gwella cyfraddau cadw yn parhau i fod yn amcan allweddol ym Mhrifysgol De Cymru, a chredwn fod gan bawb sy'n ymwneud â'r brifysgol swyddogaeth i'w chyflawni wrth hybu cyfraddau cadw a chyflawniad myfyrwyr.
Rydym wedi amlygu'n gyson y cysylltiad sefydledig rhwng recriwtio myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a chyfraddau cadw gwael. Yn unol â hynny, credwn fod ein llwyddiant wrth ddenu myfyrwyr newydd o'r rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru a chynyddu cyfran y myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel ledled y Deyrnas Unedig (y rhoddir tystiolaeth ohono mewn man arall yn y ddogfen hon) yn golygu bod Prifysgol De Cymru'n wynebu her arbennig mewn perthynas â chadw myfyrwyr. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae gwella cyfraddau cadw'n parhau i fod yn flaenoriaeth sefydliadol allweddol i Brifysgol De Cymru. Amlinellir ein hymagwedd gyffredinol at gadw a dilyniant yn y *Cynllun Profiad Myfyrwyr* (2016), sy'n gosod agenda tymor hir, gan gynnwys:

- Datblygu system dadansoddeg dysgu i'w rhoi ar waith yn 2017, yn rhan o brosiect a gefnogir gan JISC ar draws y sector;
- Treialu a gweithredu gwahanol ymagweddau at hyfforddiant personol ym mhob Cyfadran sy'n cyd-fynd â chyfres allweddol o egwyddorion;
- Canolbwyntio ar barhau i wella gweithgarwch sefydlu ac ailsefydlu, a rhoi dysgu trochi ar waith yn llawn;
- Dilyn y Polisi Asesu ar gyfer Dysgu diwygiedig, a fydd yn symleiddio a gwella amserlennu ac yn darparu golwg lefel cwrs o asesu i bob dysgwr.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cyfres o weithgareddau yn 2018/19 a fydd yn fuddiol i'n myfyrwyr ac yn hybu cyfraddau cadw a llwyddo, gan gynnwys:

[27] *Yr Academi Addysg Uwch (HEA) - https://www.heacademy.ac.uk/recognition-accreditation/uk-professional-standards-framework-ukpsf*

- *Darparu'r prosiect gwasanaethau rheng flaen integredig er mwyn rhoi cymorth a chyngor llinell gyntaf rhagorol, hygyrch i ddysgwyr, a sicrhau integreiddio da rhwng cyngor ac arweiniad academaidd, hyfforddiant personol, dadansoddeg a'r tîm cynghori myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau ychwanegol i gymorth rheng flaen gyda'r nod o "ddatrys ar y pwynt ymholi" a chydgysylltu gwybodaeth ar draws gwasanaethau rheng flaen a staff academaidd (yn enwedig Hyfforddwyr Personol).*
- *Sicrhau bod gwybodaeth am gyfraddau cadw myfyrwyr yn cael ei hadrodd i gyfadrannau'n effeithiol ac yn amserol, gan roi data penodol ar lefel cwrs.*
    - Bydd Prosiect Deallusrwydd Busnes y Brifysgol yn parhau i roi gwybodaeth fisol am gyfraddau gadael ac yn darparu system rhybudd cynnar i reolwyr ac arweinwyr cwrs, gydag adroddiadau misol. Bydd gwella deallusrwydd yn y maes hwn yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu targedu a bod eu heffaith yn cael ei gwerthuso.
    - Bydd Dadansoddeg Dysgwyr yn darparu data amser real am ymgysylltiad a chyflawniad i Hyfforddwyr Personol.
    - Yr her fwyaf i'r Brifysgol yw'r gallu i fonitro cynnydd asesu yn ystod y flwyddyn oherwydd bod amrywiaeth o systemau'n cael eu defnyddio i ddal marciau myfyrwyr. Mae'r elfen Taith Asesu o Weithredu'r Cynllun Profiad Myfyrwyr yn ystyried sut i wneud gwelliannau yn y maes hwn (trwy weithio ar y cyd â Blackboard). Nod y Brifysgol yn y pen draw yw darparu gwybodaeth amser real ar lefel cwrs a myfyriwr yn y meysydd canlynol:



Bydd y Brifysgol yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad adborth ugain niwrnod trwy adrodd ar ddata'n effeithiol, ac yn meincnodi sut mae Prifysgol De Cymru'n cymharu â sefydliadau addysg uwch eraill sy'n cystadlu yn ei herbyn yn hyn o beth.

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad | Offeryn Dadansoddeg Dysgu
"Mewn addysg uwch, mae myfyrwyr yn gadael ôl troed data wrth astudio, sy'n rhoi gwybodaeth i ni am eu dysgu a'u profiadau yn y brifysgol. Gall prifysgolion ddefnyddio'r data hwn i ddeall sut mae myfyrwyr yn dysgu a gwella eu profiad yn y brifysgol i'r eithaf. Yr enw ar hyn yw dadansoddeg dysgu."[28]

Bydd Prifysgol De Cymru, trwy weithio gyda JISC a phartneriaid allweddol yn y diwydiant, yn cwmpasu a buddsoddi mewn offeryn Dadansoddeg Dysgu i ddarparu adroddiadau gweledol effeithiol i fyfyrwyr a staff yn seiliedig ar ddata sy'n cael effaith amlwg ar ymgysylltiad a llwyddiant dysgwyr (e.e. defnydd o'r rhith-amgylchedd dysgu, defnydd o'r llyfrgell, monitro presenoldeb).

Bydd yr offeryn hwn yn cael ei ddefnyddio gan Hyfforddwyr Personol i ymyrryd yn gynnar yn achos myfyrwyr sydd naill ai mewn perygl o adael o ganlyniad i lefel isel o ymgysylltiad neu y gellir eu hannog i lwyddo ar lefel uwch. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i gyflawni ein dyletswyddau o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

[28] *Y Comisiwn Addysg Uwch (2016) "From Bricks to Clicks – The Potential of Data and Analytics in HE"*

Amgylcheddau Dysgu Trawsffurfiol (Prosiect y Cynllun Profiad Myfyrwyr)

Ni fydd yr un o'r uchod yn cael ei gyflawni heb ddarparu amgylchedd dysgu priodol. Nod ein prosiect Amgylcheddau Dysgu Trawsffurfiol yw datblygu modelau ar gyfer ystafelloedd dosbarth sy'n caniatáu ar gyfer gweithgarwch seiliedig ar efelychu sy'n gyfoethog yn ddigidol ac sy'n briodol i weithio mewn tîm a thrafod. Gan ddefnyddio'r egwyddorion a amlinellir yn ein Cynllun Profiad Myfyrwyr, byddwn hefyd yn sbarduno ffordd newydd o feddwl am fannau heblaw am yr ystafell ddosbarth ac yn ceisio darparu mannau dysgu cymdeithasol sy'n gyfoethog o ran technoleg ar bob campws fel bod dysgu'n gallu digwydd yn unrhyw le ar y safle neu oddi arno.

Bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Buddsoddi mewn mannau dysgu newydd sy'n caniatáu ar gyfer gweithgarwch seiliedig ar efelychu sy'n gyfoethog yn ddigidol ac sy'n briodol i weithio mewn tîm a thrafod. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth amgylcheddau ystafell ddosbarth traddodiadol mewn nifer o achosion.*
- *Defnyddio'r Ganolfan ar gyfer Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu (CELT) i hwyluso ymagweddau gweithredol ac ymarferol, efelychu a throchi ar lefel cwrs, er mwyn symud addysgeg oddi wrth drosglwyddo gwybodaeth i ddeialog (e.e. trwy wyrdroi dysgu) a chreu cydnerthedd yn wyneb newidiadau staff trwy fynediad at adnoddau ar-lein o ansawdd da.*
- *Parhau i gryfhau'r ddarpariaeth TGCh a'r ddarpariaeth adnoddau ar-lein ar gyfer myfyrwyr trwy UniLearn (y term ambarél ar gyfer y system integredig sy'n cefnogi gweithgareddau dysgu ac addysgu Prifysgol De Cymru trwy dechnoleg).*

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad | Parc Chwaraeon Prifysgol De Cymru – Cam 2

Mae Parc Chwaraeon Prifysgol De Cymru | Cam 2 (*sydd wedi'i leoli ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest*) yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol o oddeutu £15 miliwn[29] mewn cyfleusterau newydd, gan gynnwys adeiladu cyfleuster dan do newydd ar safle un o'r caeau rygbi presennol, darparu cae pêl-droed (a rygbi) 3G maint llawn, ardal dderbynfa, labordy cryfder a chyflyru newydd, lle ystafell ddosbarth, lle storio a swyddfeydd. Bydd y datblygiad hefyd yn trawsnewid cyfleusterau presennol y Parc Chwaraeon.

Bydd y cyfleusterau newydd yn gwella profiad myfyrwyr ac yn helpu i gynyddu ymhellach nifer y myfyrwyr o Gymru a thu hwnt sy'n astudio yn y Parc Chwaraeon. Bydd yr Ysgol Iechyd, Chwaraeon ac Ymarfer Proffesiynol yn gallu ymestyn ei chwricwlwm i feysydd newydd a bydd lle i fwy o fyfyrwyr ar gyrsiau presennol hefyd. Yn y pen draw, bwriedir i'r datblygiad helpu i hwyluso twf sylweddol yn nifer y myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yn y Parc Chwaraeon.

Yn ogystal, bydd y buddsoddiad hwn yn cryfhau USPs presennol Prifysgol De Cymru trwy hwyluso ymsefydlu achrediad a thrwyddedau proffesiynol yn ein cyrsiau, gan wella ein cyrsiau cryfder a chyflyru (*sydd â phwyslais gwyddonol unigryw),* cefnogi ymsefydlu cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth yn ein cyrsiau a'n helpu i ehangu'r ystod o bartneriaethau sydd gan y Brifysgol â chyrff proffesiynol, fel Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru.

<u>Cyflogadwyedd Myfyrwyr – Codi Dyheadau (Prosiect y Cynllun Profiad Myfyrwyr)</u>

Mae gan Brifysgol De Cymru hanes cryf o gyflogadwyedd sy'n deillio'n rhannol o safon y myfyrwyr eu hunain, a'r cyfleoedd i astudio rhaglenni a ddatblygwyd gyda'r cyrff proffesiynol a'r sefydliadau arweiniol sy'n cyflogi ein graddedigion, o lywodraeth leol a'r GIG i lawer o brif

[29] *Bydd buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn gwneud **cyfraniad** at gyfanswm cost y datblygiad*

gorfforaethau'r byd. Credwn fod ein pwyslais ar leoliadau gwaith yn rhoi mantais i'n myfyrwyr yn y farchnad waith gystadleuol iawn hefyd.

Mesurau Cysylltiedig y Cynllun Ffïoedd a Mynediad er mwyn:

iii. **gwella cyflogaeth graddedigion o Gymru**

Buddsoddiad y CFfM = £377,000

Targedau'r CFfM

TCFfM23	Cyflogadwyedd – yn 2018/19, cyfran y rhai sy'n gadael Prifysgol De Cymru gyda chymwysterau israddedig a enillwyd trwy astudio amser llawn neu ran-amser a oedd wedi cael gwaith, yn astudio, neu'r ddau, bymtheg mis ar ôl gadael = 95%
TCFfM24	Cyflogadwyedd Graddedigion – yn 2018/19, cyfran y rhai sy'n gadael Prifysgol De Cymru a oedd yn gweithio, neu'n gweithio ac astudio, mewn swydd reoli / broffesiynol bymtheg mis ar ôl gadael = 72%[30]

Priodoleddau a Dyheadau Graddedigion (Prosiect y Cynllun Profiad Myfyrwyr)

Rydym yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd yn ogystal â chyflogaeth; creu'r amodau lle y gall myfyrwyr ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau a fydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu iddynt weithredu'n effeithiol yn y gwaith ar unwaith, ond a fydd hefyd yn eu grymuso i lwyddo, datblygu ac addasu ar hyd gyrfaoedd tymor hir. Bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Datblygu offeryn myfyrio safonol ar-lein, sef 'Fy Llwyddiant yn y Dyfodol', i ganiatáu i bob dysgwr gofnodi ei 'hunaniaeth broffesiynol' sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn caffael offeryn a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr feincnodi eu hunain yn erbyn cyfres o Briodoleddau Prifysgol De Cymru a ddiffiniwyd o'r newydd. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i hunanfyfyrio ac asesu eu sgiliau cyflogadwyedd, gan gynyddu eu hyder wrth iddynt sylweddoli bod ganddynt lawer o'r sgiliau hyn a'u cyfeirio at wybodaeth, adnoddau a digwyddiadau allweddol a all eu helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod eu taith fel myfyrwyr. Bydd yr offeryn hwn yn datblygu ac ategu gwaith a gwblhawyd ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd (SEAP) a gefnogwyd gan CCAUC yn 2015. Bydd yr offer sy'n cael eu hystyried yn disodli a gwella agweddau ar yr adnoddau y buddsoddwyd ynddynt yn rhan o'r SEAP. Mae Prifysgol De Cymru'n parhau i adolygu ffyrdd newydd o gefnogi'r agenda gyflogadwyedd, sy'n cynnwys ystyried datblygiadau meddalwedd diweddar.*
- *Prynu offeryn rheoli lleoliadau ar-lein a allai, o bosibl, reoli'r ystod gyfan o wahanol leoliadau a gynigir yn y Brifysgol, gan gynnwys lleoliadau byr integredig ac asesedig, lleoliadau rhyngosod, cyfleoedd haf, a lleoliadau gwyddorau gofal, addysg a rhyngwladol. Byddai'r system hefyd yn caniatáu ar gyfer mesur lleoliadau ar draws Prifysgol Cymru, ac yn darparu un pwynt ymgysylltu â myfyrwyr ar gyfer cwmnïau, sefydliadau a myfyrwyr mewn perthynas â lleoliadau gwaith.*
- *Parhau i ddatblygu dulliau mentora cymheiriaid rhagorol, gan gynnwys datblygu "e-fentora" a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr a staff ymadweithio, ac yn hyrwyddo cymhwyso a throsglwyddo gwybodaeth, gan gysylltu myfyrwyr a staff yn lleol ac yn fyd-eang.*

[30] *Hefyd, Dangosydd Perfformiad Critigol #3 a Tharged 2.6 Cynllun Academaidd Prifysgol De Cymru*

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad | Lleoliadau Gwaith

Yn unol â disgwyliadau'r Cynllun Academaidd, mae pob cyfadran wedi cytuno ar ei blaenoriaethau strategol ar gyfer ymsefydlu lleoliadau gwaith. Erbyn 2017/18, bydd profiad gwaith ar gael ar holl gyrsiau Prifysgol De Cymru ar lefel israddedig i ôl-raddedig.

Mae ein tîm canolog ar gyfer Lleoliadau Gwaith wedi adolygu a datblygu'r holl brosesau busnes sy'n gysylltiedig â hysbysebu a rheoli lleoliadau; datblygu llwyfan ar-lein ar gyfer rheoli lleoliadau ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chyflogwyr a'r holl randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn hwyluso'r broses o ddod o hyd i gyfleoedd addas ar gyfer lleoliadau.

Mae sgiliau rheoli prosiect wedi'u hymsefydlu yn y cwricwlwm fel y bo'n briodol a hefyd wedi'u cynnwys fel rhan annatod o ddatblygu lleoliadau gwaith.

Ein nod yw monitro'r holl weithgarwch lleoliadau ledled y Brifysgol ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Bydd hyn yn cynnwys y dangosyddion perfformiad allweddol cytunedig ar gyfer y Tîm Lleoliadau Gwaith a gweithgareddau'r Rhwydwaith Lleoliadau Gwaith ehangach ym Mhrifysgol De Cymru.

Addysgeg ar gyfer Cyflogadwyedd

Mae Glasbrint Academaidd Prifysgol De Cymru'n amlinellu egwyddorion cynllunio a fydd yn datblygu hunaniaeth myfyrwyr ar gwrs, astudio cydlynol ac ymagweddau at ddysgu ac addysgu sy'n datblygu arferion dysgu dwfn. Mae ymagweddau gweithredol / ymarferol, dysgu trwy efelychu a throchi, creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu (e.e. asesu a briffiau byw a ddatblygwyd trwy ymgysylltiad penodol â chyflogwyr), a gwyrdroi dysgu yn egwyddorion cadarn ynddynt eu hunain. Yn ogystal â chreu'r amodau ar gyfer llwyddo mewn asesiadau wrth i ddysgwyr symud trwy wahanol heriau gwybyddol, rydym hefyd yn profi amrywiaeth o sgiliau grŵp ac unigol ac yn ymsefydlu priodoleddau ac ymddygiadau sy'n werthfawr i gyflogwyr, fel annibyniaeth, gweithio mewn tîm, datrys problemau, neu ganolbwyntio ar gyflawni prosiectau o fewn graddfeydd amser. Lluniwyd yr ymagwedd hon i ddatblygu myfyrwyr hunanymwybodol, cyflawn sy'n myfyrio'n barhaus ar eu hymagwedd bersonol at ddysgu, a'i gwella, o fewn cyd-destun cymuned ddysgu.

Rydym hefyd yn parhau i gynnig cyfleoedd dysgu mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn darparu Cynnig Unigryw Prifysgol De Cymru, gan gynnwys darpariaeth amser llawn ar y campws, darpariaeth ran-amser, darpariaeth ar-lein/o bell a darpariaeth floc. O ganlyniad, rydym yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a'r gallu i ddarparu cynnwys ac addysgu ysbrydoledig mewn amrywiaeth o foddau a lleoliadau a thrwy wahanol ddulliau. Mae hyblygrwydd yn hybu cynwysoldeb hefyd, gan ddenu pobl atom a allai ei chael hi'n anodd cymryd rhan fel arfer. Bydd ein Cynnig Unigryw'n cael ei roi ar waith trwy ddwy ffrwd waith gydgysylltiedig: y Cwricwlwm Unigryw a'r Amgylchedd Dysgu Unigryw. Er mwyn parhau i ddatblygu llythrennedd a chapasiti mewn moddau darparu hyblyg, bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Rhannu arfer gorau o ran cynllunio a darparu cwricwlwm hyblyg.*
- *Cynnal sgyrsiau lleol ynglŷn â chynllunio gwerthuso mewn dysgu ac asesu effaith.*
- *CELT i weithio gyda Chyfadrannau i ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol staff er mwyn gwella addysgeg-ar-waith.*
- *CELT i weithio gyda Chyfadrannau a disgyblaethau i gynorthwyo i brif ffrydio arferion asesu cynhwysol, dilys.*
- *CELT i weithio gyda Chyfadrannau i archwilio datblygiad a defnydd o'r amgylchedd dysgu digidol a ffisegol sy'n berthnasol yn lleol.*

- *Ymsefydlu ein disgwyliadau hanfodol o ran yr amgylchedd dysgu digidol ym mhob modiwl a threfniadaeth gwrs er mwyn galluogi mynediad at adnoddau dysgu ar unrhyw adeg, yn unrhyw le.*

Ymgysylltu Rhanbarthol

Mae gan Brifysgol De Cymru ymrwymiad strategol hir i ymgysylltu â'i chymunedau lleol, a fynegir yn nhermau creu cyfleoedd dysgu hygyrch, datgloi doniau a chyfoeth cymunedau lleol, a gweithredu fel sbardun ar gyfer twf economaidd a chyfiawnder cymdeithasol.

Mesurau Cysylltiedig y Cynllun Ffïoedd a Mynediad er mwyn:

iv. **ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru**

v. **cynyddu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar fyfyrwyr**

Buddsoddiad y CFfM = £855,000

Targedau'r CFfM

TCFfM25	Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) – yn 2018/19, bydd Prifysgol De Cymru'n cefnogi 41 o fyfyrwyr
TCFfM26	Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) – yn 2018/19, bydd Prifysgol De Cymru'n darparu 70,000 o ddiwrnodau o hyfforddiant DPP er mwyn cynnal ei safle ymhlith y 10 gorau yn y Deyrnas Unedig
TCFfM27	Diwrnodau Agored – yn 2018/19, sicrhau bod o leiaf 4,000 o ddarpar fyfyrwyr yn dod i bob un o'n prif Ddiwrnodau Agored yn 2018
TCFfM28	Diwrnodau Agored – yn 2018/19, sicrhau bod o leiaf 92**%** o'r mynychwyr o'r farn bod eu profiad cyffredinol o fynychu ein Diwrnod Agored yn 'Rhagorol' neu'n 'Dda Iawn'

Mae astudiaeth 2016 BiGGAR Economics, a archwiliodd effaith economaidd grŵp Prifysgol De Cymru, yn darparu tystiolaeth eglur o'r cyfraniad sylweddol y mae Prifysgol De Cymru'n ei wneud at economi'r rhanbarth a bywydau'r bobl sy'n astudio, gweithio a byw yma. Yn 2014/15:

- *£1.2 biliwn o Werth Ychwanegol Gros (GYG) a chefnogi oddeutu 14,120 o swyddi ledled y Deyrnas Unedig:*
- *£1.0 biliwn o GYG ac oddeutu 12,560 o swyddi yng Nghymru; ac*
- *£842.0 miliwn o GYG ac oddeutu 10,920 o swyddi ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.*

Mae hyn yn awgrymu:

- *am bob £1 y mae Prifysgol De Cymru'n ei chynhyrchu o ganlyniad i'w gweithrediadau uniongyrchol, ei bod yn cefnogi £8.24 mewn buddion cyfan ledled economi'r Deyrnas Unedig;*
- *am bob unigolyn a gyflogir yn uniongyrchol, mae Grŵp Prifysgol De Cymru'n cefnogi bron 3.5 o swyddi yn rhywle yn y Deyrnas Unedig; ac*

- *am bob £1 o gyllid y mae Grŵp Prifysgol De Cymru'n ei dderbyn, cynhyrchodd £6.32 o effaith economaidd.*

Yn ogystal, yng nghyd-destun ein myfyrwyr, canfu'r ymgynghorwyr:

- *Y gallai graddedigion Prifysgol De Cymru yn 2015 ddisgwyl ennill oddeutu £628 miliwn yn fwy ar hyd eu hoes na phe na byddai ganddynt radd, o bosibl. Ar gyfartaledd, gallai graddedigion Prifysgol De Cymru ddisgwyl ennill £104,606 yn fwy na phe na byddai ganddynt radd, o bosibl.*
- *Mae mwyafrif myfyrwyr Prifysgol De Cymru'n aros ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar ôl graddio, felly roedd y Brifysgol yn cael effaith fwy yn lleol na sefydliadau y mae cyfran uwch o'u graddedigion yn gadael yr ardal.*
- *Cynhyrchodd myfyrwyr Grŵp Prifysgol De Cymru a oedd yn ymgymryd â chyflogaeth ran-amser £81.9 miliwn o GYG ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a 3070 o swyddi.*
- *Cynhyrchodd pobl a oedd yn ymweld â myfyrwyr a staff neu'n mynychu cynadleddau, digwyddiadau, perfformiadau a diwrnodau agored £5 miliwn o GYG ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chefnogi 275 o swyddi.*
- *Yn 2014/15, darparodd Grŵp Prifysgol De Cymru bron 79,000 o ddiwrnodau o hyfforddiant DPP i ddysgwyr yn Ne Cymru, sy'n golygu bod y Brifysgol ymhlith y deg sefydliad addysg uwch gorau yn y Deyrnas Unedig o ran maint y ddarpariaeth.*

Er bod astudiaeth BiGGAR Economics yn dangos ymgysylltu rhanbarthol sylweddol, mae'r byd o'n hamgylch yn newid. Mae mentrau allweddol a fydd yn helpu i ffurfio'r prifddinas-ranbarth yn ystod y degawd nesaf yn cynnwys Bargen Ddinesig Caerdydd, Metro De Cymru a'r fenter Dinasoedd Mawr y Gorllewin. Fel prifysgol, bwriadwn fod mewn sefyllfa i fanteisio'n systematig ac yn effeithiol ar y rhain a chyfleoedd eraill a ddaw i'r amlwg. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws y Brifysgol i sicrhau ein bod yn barod i ymgysylltu'n ddwysach â'r cyfleoedd hyn sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal, mae Prifysgol De Cymru'n gwneud cyfraniad cryf at y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac yn parhau i gefnogi a dylanwadu ar ddatblygu cwricwla sy'n bodloni gofynion cyflogwyr yn y rhanbarth. Mae cyflogwyr ar draws ystod eang o sectorau o'r farn bod ein cynllun Rhwydwaith 75[31] yn fodel arfer da. Mae galw am brentisiaethau gradd a chredwn y gallai'r rhain gyflawni swyddogaeth gadarnhaol wrth hybu cynhwysiant cymdeithasol, os rhoddir y fframwaith polisi priodol ar waith i gefnogi eu twf a'u datblygiad yng Nghymru.

Bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae ein Tîm Cyswllt ag Ysgolion a Cholegau'n datblygu partneriaethau ar draws y rhanbarth a thu hwnt i annog dilyniant i addysg uwch. Mae eu gwaith parhaus yn hollbwysig i gynyddu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar ymgeiswyr yn y rhanbarth a thu hwnt*
- *Cyfeiriwyd yn yr adran Cyfle Cyfartal at glinigau sy'n darparu mynediad at gleientiaid a sefyllfaoedd go iawn fel bod myfyrwyr yn gallu rhoi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar waith. Gyda chefnogaeth buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad, byddwn yn parhau i gynnal y clinigau hyn mewn ystod o ddisgyblaethau academaidd*
- *Parhau â'n hymrwymiad strategol i ymgysylltu â chyflogwyr gyda lleoliadau gwaith diwydiannol, DPP, ymchwilio a datblygu rhaglenni, gan weithio gydag amrywiaeth o gwmnïau a sefydliadau proffil uchel megis Rolls-Royce, Microsoft, Tata Steel, y BBC, Airbus, Sony, a General Electric*

[31] http://network75.southwales.ac.uk/

Astudiaeth Achos Buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Buddsoddi | KESS II

Mae Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 (KESS II) yn fenter sgiliau lefel uwch ledled Cymru, a arweinir gan Brifysgol Bangor ar ran y sector AU yng Nghymru ac a ariennir yn rhannol gan raglen Gygyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop Llywodraeth Cymru. Mae KESS II yn annog graddedigion o safon uchel i weithio ar ystod o brosiectau ymchwil cydweithrediadol (PhD ac MRes) gyda sefydliadau bach a chanolig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac mae'n parhau o 2016 hyd at 2021.

Mae'n rhaid i'r ymchwil a gynhelir trwy brosiect KESS II gyd-fynd ag un o bedwar Maes Her Fawr Llywodraeth Cymru, sef:

- *Gwyddorau Bywyd ac Iechyd*
- *Uwch Beirianneg a Deunyddiau*
- *Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd*
- *TGCh a'r Economi Ddigidol*

Mae gan Brifysgol De Cymru ddiddordebau ymchwil ac arbenigedd yn yr holl feysydd hyn, ac felly bydd yn ceisio cydweithredu'n weithredol â'r fenter (gweler TCFfM 18), a bydd cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hamlygu yn http://gro.southwales.ac.uk/studentships/KESSII/.

Datblygu Rhyngwladol

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo'n strategol i wella ei henw da yn fyd-eang a chyfrannu at ymestyn cyfleoedd addysg rhyngwladol. Mae gennym "wreiddiau lleol a chysylltiadau byd-eang" ac rydym yn cynnig gweithgarwch amlgampws, amlddinas ac amlwlad wrth ddarparu addysg i fyfyrwyr.

Mesurau Cysylltiedig y Cynllun Ffïoedd a Mynediad er mwyn:

vi. **hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol**

Buddsoddiad y CFfM = £1.86 miliwn

Targedau'r CFfM

TCFfM29	Myfyrwyr Tramor – yn 2018/19, nifer y myfyrwyr tramor (nad ydynt o'r Undeb Ewropeaidd) sy'n dilyn rhaglenni israddedig/ôl-raddedig = 2,455
TCFfM30	Myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd – yn 2018/19, nifer y myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n dilyn rhaglenni israddedig/ôl-raddedig = 1,625
TCFfM31	Lleoliadau Erasmus+ – yn 2018/19, nifer y lleoliadau myfyrwyr ar draws y Brifysgol = 25

Nid oes amheuaeth fod recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd wedi dod yn fwyfwy anodd i Sector AU y Deyrnas Unedig. Bwriadwn barhau i geisio datblygu ac ymestyn ein gweithgareddau rhyngwladol er mwyn cefnogi recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ar y campws ac yn y wlad, creu cydweithrediadau academaidd ac ymchwil cynaliadwy, ac esblygu ein portffolio academaidd yn barhaus i fodloni anghenion yr economi fyd-eang newydd. Fodd bynnag, mae'r uchelgais hwn yng nghyd-destun cystadleuaeth allanol uwch o fewn y Deyrnas Unedig yn ogystal ag o wledydd eraill fel Unol Daleithiau America, Awstralia a Chanada, a ddilynir yn agos gan gyrchfannau astudio dramor newydd sy'n dod i'r amlwg yn Ne-ddwyrain Asia, y Dwyrain Canol ac o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Nid ydym yn gwybod beth fydd effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd eto, ond mae ceisiadau o'r Undeb Ewropeaidd wedi lleihau yn y sector ar gyfer derbyn yn 2017/18. Bydd newidiadau i'r gyfundrefn ffïoedd yn effeithio ar

atynioldeb AU yn y Deyrnas Unedig i fyfyrwyr o'r tu allan i'n ffiniau hefyd. Mae'r amgylchedd gwleidyddol heriol ac ansicr yn cael effaith ar recriwtio i Brifysgol De Cymru, er y bwriadwn gynnal ein niferoedd presennol.

Mae ein gweithgarwch recriwtio myfyrwyr rhyngwladol (ar y campws) wedi'i seilio ar ein *Cynllun Recriwtio Rhyngwladol Strategol a Gweithredol (2014-2020*). Ein prif nod yw sefydlogi ein marchnadoedd myfyrwyr rhyngwladol craidd a gosod y sylfeini ar gyfer twf mewn marchnadoedd newydd yng nghyd-destun yr amgylchedd gweithredu cystadleuol a heriol a ddisgrifiwyd. Mae wedi'i seilio ar gynsail amrywiaeth, a byddwn yn ymdrechu i recriwtio i'r eithaf o ystod mor eang o wledydd â phosibl er mwyn peidio â gorddibynnu ar ardaloedd penodol.

Mae ein gweithgarwch Partneriaethau Rhyngwladol wedi'i seilio ar ein *Strategaeth Ryngwladol (2015-2020*) hefyd. Anogir staff y Brifysgol i ddatblygu partneriaethau rhyngwladol trwy sefydlu perthnasoedd academaidd newydd â sefydliadau byd-eang, gan gymryd rhan mewn arloesi agored er budd ein staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol.
Bydd gweithgareddau a gwasanaethau penodol yn 2018/19 yn cynnwys:

- *Gweithio gyda'n rhwydwaith o asiantau yn yr Undeb Ewropeaidd a thramor i ymestyn ein gweithgareddau recriwtio rhyngwladol uniongyrchol i gynnwys marchnadoedd newydd. I gefnogi'r gweithgarwch hwn:*
  - *Yn yr Undeb Ewropeaidd, bydd Ysgoloriaeth Cyflawniad Academaidd yn cael ei chynnig i fyfyrwyr eithriadol sy'n cyflawni cymwysterau'r Undeb Ewropeaidd sy'n gyfwerth ag ABB o leiaf ar lefel Safon Uwch*

  - *Ymhellach i ffwrdd, byddwn yn cynnig ystod o ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n eu hariannu eu hunain. Yn ogystal, bydd Ysgoloriaethau Datblygu Rhyngwladol y Canghellor yn cael eu cynnig i fyfyrwyr o genhedloedd dethol sy'n datblygu, ac rydym yn gyrchfan poblogaidd ar gyfer ysgolheigion Chevening a'r Gymanwlad, yr ydym yn falch iawn o'u cefnogi.*
- *Parhau â datblygiadau partneriaeth Addysg Drawswladol rhyngwladol gyda phartneriaid presennol, e.e. Prifysgol Nicosia (Cyprus) i ddatblygu cyfres o raglenni i'w darparu ar-lein yn Affrica yn bennaf, a phartneriaid newydd posibl, e.e. Llywodraeth Dubai i sefydlu Academi Awyrennau yn y prosiect De Dubai blaengar.*
- *Ymwneud mewn ffordd ystyrlon, ac i'r graddau mwyaf posibl, â rhaglenni symudedd yr Undeb Ewropeaidd (yn enwedig Erasmus+) a rhaglenni ehangach a ariennir gan Ewrop (yn enwedig Horizon 2020).*

Adran Tri | Ein Targedau – Monitro a Gwerthuso

Targedau'r CFfM | Ailadrodd

Mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn amlinellu pedwar targed sefydliadol ar hugain (gweler Tabl G ***cysylltiedig*** am wybodaeth fanwl, gan gynnwys data sylfaenol a thwf a ragwelir) sy'n cyfrannu at ddangos ymrwymiad Prifysgol De Cymru at gynyddu a / neu gynnal nifer y myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch ac amcanion eraill y Cynllun Ffïoedd a Mynediad. Maen nhw'n dangos lefel uchelgais Prifysgol De Cymru, pa mor gyflym y mae'n gwneud cynnydd a pha mor bell sydd ganddi i fynd o ganlyniad i ddarpariaeth a buddsoddiad y Cynllun Ffïoedd a Mynediad. Lle y bo'n berthnasol, mae Dangosyddion Perfformiad Critigol a Thargedau Cynllun Academaidd Prifysgol De Cymru wedi cael eu cynnwys i ddangos sut mae'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad yn cyd-fynd â Strategaeth a chynllunio gweithredol y Brifysgol.

Cyfle Cyfartal

TCFfM1 Mynediad Teg at AU – yn 2018/19, bydd Prifysgol De Cymru'n cyflwyno sgyrsiau a digwyddiadau AU oddi ar y campws mewn ysgolion a cholegau targed ehangu mynediad a chyfrwng Cymraeg = 225 o sgyrsiau a digwyddiadau

TCFfM2 Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – yn 2018/19, cyfran y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch ym Mhrifysgol De Cymru sy'n byw yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru = 31.2%

TCFfM3 Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – yn 2018/19, canran y bobl ifanc sy'n byw yn y Deyrnas Unedig sy'n dilyn gradd gyntaf amser llawn ym Mhrifysgol De Cymru sy'n dod o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR3) = o leiaf 5% yn uwch na meincnod sefydliadol HESA[32]

TCFfM4 Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – yn 2018/19, canran y myfyrwyr israddedig amser llawn aeddfed ym Mhrifysgol De Cymru sy'n byw yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddynt brofiad blaenorol o AU ac sy'n dod o gymdogaeth cyfranogiad isel (POLAR3) = o leiaf 5% yn uwch na meincnod sefydliadol HESA

TCFfM5 Cyfranogiad Grwpiau a Dangynrychiolir – Lleihau'r bwlch rhwng parhad myfyrwyr Gwyn Prydeinig a myfyrwyr BME = gostyngiad i 5%

TCFfM6 Dilyniant AB – yn 2018/19, dilyniant myfyrwyr o bartneriaid y Gynghrair Strategol AB (Lefel 5 i Lefel 6 Amser Llawn) = 60%[33]

TCFfM7 Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, gostyngiad yng nghanran y myfyrwyr israddedig amser llawn nad ydynt mewn addysg uwch mwyach yn dilyn y flwyddyn fynediad o 12.1% yn 2016/16 i 9% yn 2018/19

TCFfM8 Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, canran myfyrwyr amser llawn Prifysgol De Cymru y disgwylir iddynt ennill gradd = 1% yn uwch na meincnod HESA

TCFfM9 Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru a gynorthwyir trwy fwrsariaethau a chyllid caledi = 1,500

---

[32] *Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch - www.hesa.ac.uk/pis*

[33] *Hefyd, Dangosydd Perfformiad Critigol #7 a Tharged 2.1 Cynllun Academaidd Prifysgol De Cymru*

TCFfM10 Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru a gynorthwyir gyda “chymorth ariannol arall”, yn enwedig “costau ychwanegol astudio” = 2,200

TCFfM11 Cadw a Llwyddo – yn 2018/19, bydd canran y bobl ifanc sy’n dilyn gradd gyntaf amser llawn ym Mhrifysgol De Cymru sy’n byw yn y Deyrnas Unedig sy’n dod o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR3) nad ydynt mewn AU mwyach yn perfformio’n well na’r meincnod o 1% islaw’r meincnod

TCFfM12 Cymorth Lles – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru a gynorthwyir gyda chyngor a sgiliau rheoli arian = 1,300

TCFfM13 Cyfrwng Cymraeg – nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru sy’n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (5+ o gredydau) = 200

TCFfM14 Cyfrwng Cymraeg – yn 2018/19, nifer myfyrwyr Prifysgol De Cymru sy’n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (40+ o gredydau) = 175

TCFfM15 Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Y Rhai sy’n Gadael Gofal – yn 2018/19, nifer y rhai sy’n gadael gofal sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol De Cymru = 60

Hyrwyddo Addysg Uwch

TCFfM16 Mesur ‘Ymdeimlad o Gymuned’ myfyrwyr – Gosod targedau ar gyfer Cyfadrannau ac Ysgolion yn erbyn y tri chwestiwn perthnasol yn Arolwg Myfyrwyr Mewnol Prifysgol De Cymru o welliant 5% i 84% erbyn 2018/19 o feincnod 2016/17.

TCFfM17 Mesur profiad cyntaf myfyrwyr – Cynnal perfformiad 2016/17 yn yr Arolwg Profiadau Cynnar lle’r oedd 99% o fyfyrwyr yn fodlon ar eu profiad cyntaf o’r Brifysgol.

TCFfM18 Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr – yn 2018/19, sgôr gyfartalog dreigl tair blynedd Prifysgol De Cymru ar gyfer cwestiwn ‘bodlonrwydd cyffredinol’ yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr = 84**%**[34]

TCFfM19 **Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr – yn 2018/19, bydd bodlonrwydd myfyrwyr Prifysgol De Cymru ar Undeb y Myfyrwyr wedi gwella 5% i 65%.**

TCFfM20 Ansawdd Dysgu ac Addysgu – yn 2018/19, staff academaidd Prifysgol De Cymru a chanddynt statws Cymrawd yr Academi Addysg Uwch = 55%[35]

TCFfM21 Cynrychiolaeth Myfyrwyr/Llais Myfyrwyr – yn 2018/19, bydd gan 95% o’r holl gyrsiau israddedigion gynrychiolydd myfyrwyr, a bydd gan 100% ohonynt rai erbyn 2019/20

TCFfM22 Cynrychiolaeth Myfyrwyr/Llais Myfyrwyr – Cynyddu nifer y cynrychiolwyr cwrs ar gyfer cyrsiau AB mewn AU i gyrraedd lefelau’r Brifysgol ehangach erbyn 2020

TCFfM23 Cyflogadwyedd – yn 2018/19, cyfran y rhai sy’n gadael Prifysgol De Cymru gyda chymwysterau israddedig a enillwyd trwy astudio amser llawn neu ran-amser a oedd wedi cael gwaith, yn astudio, neu’r ddau, bymtheg mis ar ôl gadael = 95%

TCFfM24 Cyflogadwyedd Graddedigion – yn 2018/19, cyfran y rhai sy’n gadael Prifysgol De Cymru a oedd yn gweithio, neu’n gweithio ac astudio, mewn swydd reoli / broffesiynol bymtheg mis ar ôl gadael = 72%

TCFfM25 Ysgoloriaethau Sgiliau’r Economi Wybodaeth (KESS) – yn 2018/19, bydd Prifysgol De Cymru’n cefnogi 41 o fyfyrwyr

TCFfM26 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) – yn 2018/19, bydd Prifysgol De Cymru’n darparu 70,000 o ddiwrnodau o hyfforddiant DPP er mwyn cynnal ei safle ymhlith y 10 gorau yn y Deyrnas Unedig

---

34 *Hefyd, Dangosydd Perfformiad Critigol #2 a Tharged 3.2 Cynllun Academaidd Prifysgol De Cymru*

35 *Hefyd, Targed 3.5 y Cynllun Academaidd*

TCFfM27 Diwrnodau Agored – yn 2018/19, sicrhau bod o leiaf 4,000 o ddarpar fyfyrwyr yn dod i bob un o'n prif Ddiwrnodau Agored yn 2018

TCFfM28 Diwrnodau Agored – yn 2018/19, sicrhau bod o leiaf 92**%** o'r mynychwyr o'r farn bod eu profiad cyffredinol o fynychu ein Diwrnod Agored yn 'Rhagorol' neu'n 'Dda Iawn'

TCFfM29 Myfyrwyr Tramor – yn 2018/19, nifer y myfyrwyr tramor (nad ydynt o'r Undeb Ewropeaidd) sy'n dilyn rhaglenni israddedig/ôl-raddedig = 2,455

TCFfM30 Myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd – yn 2018/19, nifer y myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n dilyn rhaglenni israddedig/ôl-raddedig = 1,625

TCFfM31 Lleoliadau Erasmus+ – yn 2018/19, nifer y lleoliadau myfyrwyr ar draws y Brifysgol = 25

Trefniadau a Graddfa Amser

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro cynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad wedi'i neilltuo i'r Grŵp Ffïoedd ac Ysgoloriaethau, a gadeirir gan y Rhag Is-ganghellor (Adnoddau Strategol) ac sy'n cynnwys cynrychiolydd o'r Undeb Myfyrwyr. Bydd y Grŵp hwn yn derbyn diweddariad ar gynnydd yn erbyn y targedau ym mhob cyfarfod tri misol drwy gydol 2018/19. Mae'r adroddiadau'n mynnu bod gwariant yn erbyn y gyllideb yn cael ei gadarnhau a bod cynnydd wrth gyflawni'r targedau a osodwyd yn cael ei fonitro. Trafodir y rhain yn fanwl a chytunir ar ymyrraeth pan fydd angen. Trwy Brosiect Gwybodaeth Fusnes y Brifysgol, bydd dangosfwrdd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob cyfarfod i fonitro cynnydd yn erbyn y 31 targed yn y cynllun hwn.

Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Strategol yn gyfrifol am goladu a monitro gwybodaeth gan yr uwch aelod o staff dynodedig sy'n rheoli pob gweithgaredd fel y gallwn fodloni ein gofynion adrodd. Bydd yn gwneud hynny trwy gydweithio'n agos â Thîm Cyllid Prifysgol De Cymru. Mae'r aelodau staff dynodedig sy'n gyfrifol am bob gweithgaredd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod dulliau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y gweithgareddau maen nhw'n gyfrifol amdanynt.

Yn fwy cyffredinol, mae monitro "taith y myfyriwr" wedi'i ymsefydlu mewn nifer o brosesau generig. Ar lefel Bwrdd y Llywodraethwyr, adolygir Dangosyddion Perfformiad Critigol bob hanner blwyddyn, ac mae'r cylch cynllunio blynyddol gyda Chyfadrannau'n cynnwys adolygu Dangosyddion Canlyniadau Allweddol manwl er mwyn penderfynu ar eu cyfraniad at y Dangosyddion Perfformiad Critigol. Mae'r Brifysgol yn datblygu offeryn Gwybodaeth Fusnes sy'n hybu ymwybyddiaeth o berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Critigol, Dangosyddion Canlyniadau Allweddol a meincnodau'r sector.

Yn ogystal, mae adroddiadau lefel uchel ar effeithiolrwydd gweithgareddau a gwasanaethau yn ymwneud ag, e.e. ehangu cyfranogiad, yr arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr, cyfraddau cadw a chyflawni, ac ati, yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan Fwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academaidd. Ar lefel weithredol, mae gweithgarwch adborth gan fyfyrwyr a gwybodaeth am gyfraddau cadw ac ymgysylltu â myfyrwyr yn cael eu monitro'n lleol bob mis dan oruchwyliaeth etholaethau allweddol, uwch dimau cyfadran, arweinwyr cwrs unigol ac eraill. Darperir adroddiadau ar weithgarwch yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr, gan gynnwys ymgysylltu â'r arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr ac arolygon eraill, i'r Grŵp Profiad Myfyrwyr fel mater o drefn, a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr. Cynhelir cyfarfodydd anffurfiol â chyfranwyr allweddol at lwyddiant y Cynllun Ffïoedd a Mynediad i fonitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn gwariant a chyflawni targedau.

Yn y bôn, mae'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn yn rhan o fusnes pob dydd y Brifysgol, yn derbyn sylw gan yr holl staff ac yn cael eu monitro trwy ystod o weithgareddau a strwythurau pwyllgor mwy ffurfiol. Mewn sawl achos, mae'r targedau a osodwyd yn gysylltiedig â phrosesau cynllunio strategol y Brifysgol ac yn cyd-fynd â'n Cynllun Academaidd.

Gwerthuso Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr

Mesur cyffredinol llwyddiant ein rhaglen cymorth ariannol i fyfyrwyr yw ein llwyddiant wrth recriwtio a chadw myfyrwyr o gefndir llai breintiedig a myfyrwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae 31% o fyfyrwyr Prifysgol De Cymru sy'n byw yng Nghymru yn dod o chwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru neu ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn yn parhau i fonitro ein perfformiad cyffredinol yn erbyn data ehangu cyfranogiad HESA a data arall a ddilyswyd yn allanol, e.e. Llywodraeth Cymru, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Bydd ein Gwasanaeth Cyngor Ariannol Myfyrwyr yn parhau i olrhain y myfyrwyr y mae'n eu cynorthwyo, gan gynnwys monitro cyfraddau gadael a'r rhesymau dros adael. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu adborth gan bob myfyriwr sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol Myfyrwyr. Bwriadwn geisio adborth ychwanegol ar effaith cymorth ariannol ar fynediad myfyrwyr at astudio a pharhau â'u rhaglen.

Trwy'r Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr, byddwn yn parhau i rannu arfer da a dysgu o brofiad o fewn y sector.

Adroddiad Blynyddol

Bydd Prifysgol De Cymru'n cyhoeddi targedau'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad ynghyd â'n cynnydd yn eu herbyn mewn Adroddiad Blynyddol a fydd ar gael yn gyhoeddus, gan gynnwys canfyddiadau unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fe'i rhennir gyda'n Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr, i'w ystyried ymhellach.

Adran Pedwar | Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Grŵp Prifysgol De Cymru'n gymuned academaidd amrywiol o bob crefydd a dim crefydd, wedi'i huno gan ymrwymiad cyffredin i ymdrech academaidd. Daw'r boddhad a deimlwn yn ein gwaith trwy seremonïau graddio, darlithiau, ffreuturiau, mannau cymdeithasol, lle y gwelwn sut mae'r hyn rydym yn ei wneud yn trawsnewid bywydau a rhagolygon yr unigolion hynny sy'n astudio gyda ni. Mae ein seremonïau graddio'n edrych ac yn teimlo'n amrywiol: maen nhw'n ddathliad o bobl o bob cefndir a thras, a chanddynt wahanol straeon bywyd, sydd oll yn gallu manteisio ar y potensial aruthrol a ddaw yn sgil astudio yn y Brifysgol.

Mae ein staff yn gorff o bobl yr un mor amrywiol sydd â gwahanol safbwyntiau, gwerthoedd ac agweddau. Ceisiwn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol lle mae gwahaniaethau o'r fath yn cael eu rhannu a'u gwerthfawrogi, a lle mae unrhyw driniaeth annheg neu wahaniaethu'n cael ei herio a'i ddileu. Mae'n bwysig ein bod yn hyrwyddo cynwysoldeb yn ein holl weithgareddau ac yn hyrwyddo egwyddorion amrywiaeth trwy sicrhau bod gwahanol safbwyntiau unigolion neu grwpiau'n cael eu parchu a'u dathlu.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20[36] yn amlinellu ein hymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Trwy'r Cynllun hwn, rydym wedi gosod ymrwymiad eglur nid yn unig i gydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb, ond hefyd i sicrhau bod pawb sy'n gweithio neu'n astudio o fewn Grŵp Prifysgol De Cymru'n cael eu trin â pharch a bod anghenion amrywiol yn cael eu hystyried a'u bodloni. Mae'r ymrwymiad hwn i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysicach fyth yn ystod cyfnod o newid sylweddol parhaus i'r sector addysg, ansicrwydd economaidd a chynnwrf gwleidyddol, yn dilyn y bleidlais i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n fwy hanfodol fyth i wneud yn siwr bod camau i sicrhau cyfle cyfartal mewn addysg a gwaith yn cael eu rhoi ar waith a'u blaenoriaethu lle mae'r angen mwyaf amdanynt.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu wyth Amcan Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Grŵp Prifysgol De Cymru rhwng 2016 a 2020:

1. *Hyrwyddo urddas, parch, cynhwysiant a thegwch o fewn cymunedau'r Coleg a'r Brifysgol ac ymsefydlu cydraddoldeb ym mhrosesau penderfynu Grŵp Prifysgol De Cymru.*

2. *Sicrhau yr ymgysylltir â staff, myfyrwyr a grwpiau sector gwirfoddol lleol a chanddynt nodweddion gwarchodedig trwy gydweithredu, cyfathrebu ac ymgynghori.*

3. *Denu, dewis a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio yng Ngrŵp Prifysgol De Cymru a chreu amgylchedd sy'n annog a chefnogi pob myfyriwr i ymgysylltu'n weithredol â'r Brifysgol a'r Colegau i wireddu ei botensial llawn.*

4. *Denu, cadw a datblygu ystod amrywiol o bobl i weithio i Grŵp Prifysgol De Cymru a galluogi'r rhai sy'n gweithio i'r Grŵp gael mynediad at ddatblygiad a dilyniant gyrfaol agored a thryloyw.*

5. *Sicrhau bod adeiladau a seilwaith Grŵp Prifysgol De Cymru'n adlewyrchu anghenion amrywiol cymunedau'r Brifysgol a'r Coleg, a darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygyrch a chynhwysol.*

---

[36] *Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol De Cymru 2016-2020 - http://hr.southwales.ac.uk/hr/equalitydiversity/strategic_equality_plan/*

6. *Datblygu ymagwedd gynhwysol tuag at ymchwil a gynhelir gan staff Grŵp Prifysgol De Cymru, lle mae cyfranogiad pobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cael ei hyrwyddo a rhwystrau sy'n atal pobl o grwpiau amrywiol rhag cyfranogi'n cael eu dileu.*

7. *Cynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal o Grŵp Prifysgol De Cymru bob tair blynedd a gweithredu'r camau sy'n deillio o'r Cynlluniau Gweithredu Cyflog Cyfartal canlyniadol.*

8. *Gwella'r broses o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldebau a gwybodaeth berthnasol am gydraddoldebau.*

Datblygwyd y rhain gan ddefnyddio tystiolaeth feintiol ac ansoddol i lywio ein penderfyniadau ynglŷn â'r blaenoriaethau y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt, a buont yn destun ymgynghori â staff a myfyrwyr. Rydym yn hyderus bod y blaenoriaethau yr ydym wedi'u gosod yn mynd i'r afael â'r materion cydraddoldeb mwyaf dybryd yng nghymunedau ein Prifysgol. Byddwn yn sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn aros yn ddogfen 'fyw' sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws y Grŵp a bod cynnydd, cyflawniadau a heriau mewn perthynas â gwneud hynny'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Er bod Bwrdd y Llywodraethwyr a thimau arweinyddiaeth yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn bodloni gofynion deddfwriaeth gydraddoldeb a'n bod yn rhoi'r pwys mwyaf i'r dasg hon, cydnabyddwn fod ymsefydlu cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn yn sylfaenol i gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a moesol.

Adran Pump | Ein Hymrwymiad i Fyfyrwyr

Ymgysylltu â Myfyrwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru wedi asesu a chyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn, a byddwn yn gweithio gyda'r Undeb i sicrhau bod y Brifysgol yn dilyn arfer gorau o ran ariannu'r Undeb Myfyrwyr yn briodol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu datblygu a pharhau i ymgysylltu'n rhagorol â myfyrwyr trwy ei fframwaith timau chwaraeon, clybiau a chymdeithasau. Fel y crybwyllwyd, mae cynrychiolydd o'r Undeb Myfyrwyr yn aelod o Grŵp Ffïoedd ac Ysgoloriaeth Prifysgol De Cymru bellach, gan gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynglŷn â defnyddio incwm ffïoedd er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn a rhai a osodir yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Undeb Myfyrwyr i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a chodi arian yn y gymuned, a byddwn yn cefnogi strwythurau democrataidd yr Undeb Myfyrwyr, sy'n ymestyn ar draws holl gampysau'r Brifysgol. Mae'r gweithgarwch hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ymhlith myfyrwyr, ac yn ymgorffori datblygiad gwerthoedd diwylliannol a dinesig fel goddefgarwch a chydlyniad cymdeithasol, er mwyn cael dylanwad ehangach a chadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol a gwleidyddol. Mae'r holl weithgareddau hyn yn gwella profiad myfyrwyr, ac yn cynorthwyo i gadw myfyrwyr trwy ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid ymhlith ein myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr wedi datblygu perthynas ffurfiol yn unol ag arweiniad CCAUC ar arfer da wrth ariannu undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth myfyrwyr. Mae'r berthynas well hon wedi arwain at drosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio system cynrychiolaeth myfyrwyr y Brifysgol i'r Undeb Myfyrwyr. Rydym hefyd yn defnyddio'r bartneriaeth i sicrhau ein bod yn bodloni ein nodau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr yn ein His-grŵp Anabledd a Dyslecsia a'n His-grŵp Cydraddoldeb Hiliol. Bydd ein perthynas â'r corff myfyrwyr yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn ystod 2018/19.

Bydd y Brifysgol yn parhau i weithio gyda'i Hundeb Myfyrwyr i sicrhau bod ei Chytundeb Perthynas, Siarter Myfyrwyr, a llais myfyrwyr mewn llywodraethu yn gwbl effeithiol a chynrychioliadol o bortffolio'r Brifysgol. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, ac unwaith y flwyddyn o leiaf, er mwyn parhau i fod yn sicr eu bod yn fodd effeithiol o hyrwyddo buddiannau myfyrwyr a buddsoddiad yn eu haddysg uwch. Byddwn yn monitro canfyddiadau myfyrwyr o'u profiad yn ofalus o ran eu bodlonrwydd ar eu Hundeb Myfyrwyr a'u llais myfyrwyr. Ein gweledigaeth, fel y'i hamlinellir yn y ddogfen *Partneriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru* gan Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy (WISE), yw y dylai partneriaeth fod yn rhan naturiol o brofiad staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae'r arfer da o ran ymgysylltu â ffrwd waith 'Myfyrwyr fel Partneriaid' Cyfeiriadau'r Dyfodol yn parhau, trwy ychwanegu at yr enghreifftiau o arfer da a amlinellir yn y cyhoeddiad "Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru: Myfyrwyr fel Partneriaid" mewn datblygiadau newydd a gynlluniwyd i wella profiad myfyrwyr yng ngrŵp Prifysgol De Cymru ar draws ei holl gampysau. Mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain ar y cyd rhwng Undebau Myfyrwyr Prifysgol De Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a CELT.

Mae Cynllun Profiad Myfyrwyr y Brifysgol yn cynnwys Amcan Llwyddiant ar gyfer 'Myfyrwyr fel Partneriaid mewn Newid'. Mae pedwar cam gweithredu wedi'u cynnwys yn y cynllun yn benodol:

	Objective	Lead Responsibility	Measurable Outcome	By
S06.1	Undertake an annual review of the CR and SVR scheme with the SU, to agreed metrics	PVC and SU	Any necessary amendments to the scheme agreed for 2016	June 2016
S06.2	Continue to develop the graduate internship scheme, aligned to strategic projects	HR and Careers and Employability Service	Advertisement of and filling vacancies for intern opportunities	July 2016
S06.3	Review the provision of facilities for those with caring responsibilities to ensure they can effectively engage at USW	PVC, SU and Student Services	Review complete	December 2016
S06.4	Develop a Student Teaching Fellow scheme through CELT, to build partnership with students on classroom practice, technology enhanced learning and curriculum design	CELT	Scheme scoped and delivered	Scoping December 2016, delivery 2016/17

Mae'r Brifysgol a'i Hundeb Myfyrwyr hefyd wedi gweithio'n agos i sicrhau bod ymgysylltu â myfyrwyr fel cyfrwng gweithredu cymdeithasol wrth wraidd gweithgarwch craidd ac allgyrsiol. Mae'r strategaeth ar gyfer gwella profiad myfyrwyr dros nifer o wahanol brosiectau, sy'n cyd-fynd yn fras ag egwyddorion y fframwaith Gweithredu Cymdeithasol a Chyfleoedd Myfyrwyr Addysg Uwch, wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'r cwricwlwm academaidd. Mae gwerthoedd yr Undeb Myfyrwyr yn gymesur ag egwyddorion y fframwaith, ac felly'n sail i'w holl weithgareddau. Yn 2016-17, cefnogodd yr Undeb Myfyrwyr fwy na 3,000 o fyfyrwyr ar draws pob campws mewn ystod o wahanol weithgareddau myfyrwyr yn amrywio o ymgysylltu â chwaraeon, clybiau a chymdeithasau i gymryd rhan fel Cynrychiolwyr Cwrs yn ein systemau cynrychiolaeth academaidd. Mae cyfranogiad mewn prosesau llywodraethu wedi cynyddu, wrth i nifer y myfyrwyr sy'n pleidleisio yn etholiadau blynyddol yr Undeb Myfyrwyr gynyddu 97% a mwy na 150 o fyfyrwyr fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae'r Brifysgol wedi ymsefydlu amrywiaeth o 'Gamau Trawsffurfiol' fel cynnig craidd ym mhob cwrs, a ddefnyddir yn greadigol gan yr academyddion i gynyddu cyfleoedd myfyrwyr a datblygu perthnasoedd â'r gymuned leol. Er enghraifft, lansiodd y Gyfadran Busnes a Chymdeithas y Clinig Cyngor Cyfreithiol ac Ariannol ym mis Hydref 2013 er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr Prifysgol De Cymru wirfoddoli mewn amgylchedd gwasanaethau cyfreithiol, gan weithio gyda Chyfreithwyr a Bargyfreithwyr cymwysedig i ddarparu cyngor cyfreithiol rhad ac am ddim i'r cyhoedd. Er bod y Clinig yn helpu i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, fe'i cynigir yn bennaf i wella cyflogadwyedd ein myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn rhoi eu hastudiaethau academaidd, damcaniaethol ar waith yn y Clinig ac yn ymgymryd â phrofiad gwaith gwerthfawr sy'n eu gwneud yn gyflogadwy iawn yn y farchnad. Mae'r Clinig wedi'i leoli yng nghampws Trefforest a Chaerdydd.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru'n hygyrch i fyfyrwyr sy'n astudio ein cyrsiau a ddarperir trwy ein partneriaid AB. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau a chymorth ar gyfer gwaith achos. Mae'r Undeb Myfyrwyr yn cynorthwyo'r colegau â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer systemau cynrychiolaeth myfyrwyr ac yn cyfarfod yn rheolaidd â phartneriaid i ddarparu'r cymorth hwn. Ar lefel strategol, mae'r Undeb Myfyrwyr yn rhan o Grŵp Gweithredu Partneriaeth y Brifysgol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o bartneriaid AB y Brifysgol. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am oruchwylio a darparu cwricwla Prifysgol De Cymru a phrofiad myfyrwyr sy'n astudio trwy ein colegau partner AB.

Mae prosesau allweddol, fel Cylch Monitro Blynyddol y Brifysgol, yn cynnwys gofynion i golegau gyflwyno Adroddiad Monitro a Chynllun Gweithredu Blynyddol. Felly, mae pob Coleg yn gwneud sylwadau ar 'adborth gan fyfyrwyr' trwy'r broses hon. Mae'r adroddiadau a'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu gan Bwyllgor Archwilio Ansawdd y Brifysgol, sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd.

Yn ogystal â'r uchod, mae Contract Dyrannu Adnoddau pob Coleg yn cynnwys gofyniad i'r dyraniad ar eu cyfer yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad gael ei flaenoriaethu'n strategol i amrywiaeth o weithgareddau penodol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

'Annog a chynyddu cynrychiolaeth llais myfyrwyr o ran AU mewn AB ac ymgysylltu ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru.'

Yn yr un modd â holl wariant y cynllun ffïoedd a mynediad, caiff hyn ei fonitro trwy brosesau'r Brifysgol fel y'u hamlinellir yn Adran 3.

Yn olaf, mae'n ofynnol i holl gyrsiau Prifysgol De Cymru a ddarperir gan bartneriaid AB benodi Cynrychiolydd Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn ystyried sut i wella cyfraniad ffurfiol y cynrychiolwyr hyn at systemau adborth y Brifysgol. Un dewis fydd hwyluso cyfarfodydd rhwng pob cynrychiolydd myfyrwyr a Swyddog Cyswllt y Brifysgol ar gyfer y ddarpariaeth.

Mae'r Brifysgol wedi datblygu tudalennau glanio penodol ar gyfer myfyrwyr AU mewn AB[37] i'w dulliau cyfathrebu â myfyrwyr. Treialwyd y tudalennau hyn ymhlith y corff myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17 ac maen nhw'n cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Gofynnwyd am adborth gan y corff myfyrwyr a fydd yn llywio datblygiadau yn y dyfodol.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru wedi bod yn weithgar wrth gynorthwyo colegau i ymgyrchu ar gyfer rolau swyddog a phenodi cynrychiolwyr myfyrwyr a, thrwy'r Cydlynydd Cynrychiolaeth Myfyrwyr, fe'u hanogir i gynyddu cefnogaeth ar gyfer y gweithgarwch hwn er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu penodi a bod cynrychiolwyr myfyrwyr yn cael eu hyfforddi ac yn ymgysylltu â'u rôl. Mae targed wedi cael ei osod yn y Cynllun Ffïoedd a Mynediad hwn (TCFfM22) i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

Cyfathrebu â Myfyrwyr | Cynllun Ffïoedd a Mynediad

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i ddarparu profiad myfyrwyr rhagorol sy'n cynnwys sicrhau bod y wybodaeth a roddwn iddynt yn dryloyw ac yn hygyrch. Rydym yn rhoi gwybodaeth gywir ac amserol i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol am y costau maen nhw'n debygol o'u hwynebu yn ystod cyfnod eu cwrs, beth yn union sydd wedi'i gynnwys yn y ffïoedd a godir a pha gymorth ariannol sydd ar gael. Yn unol â'n Polisi Ffïoedd a Rheoli Dyledion (Gorffennaf 2016), mae ffïoedd dysgu'n destun cynnydd blynyddol fel a ganlyn:

- *Gallai ffïoedd myfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser o'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac Ynysoedd y Sianel gynyddu'n flynyddol yn unol â'r hyn a bennir gan CCAUC*
- *Mae ffïoedd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig amser llawn o'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac Ynysoedd y Sianel yn cael eu gosod ar yr un lefel â ffi ysgoloriaeth ymchwil fwyaf Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig, sy'n cynyddu bob blwyddyn fel arfer, yn unol â chwyddiant (Lefelau Cyflog Doethurol a Ffïoedd Dangosol Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig ar gyfer 2015 – Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig).*
- *Mae'r cynnydd mewn ffïoedd myfyrwyr ôl-raddedig amser llawn a rhan-amser a addysgir o'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac Ynysoedd y Sianel wedi'i seilio ar gyfradd gyfartalog y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer y deuddeg mis blaenorol wrth osod y ffïoedd, wedi'u talgrynnu i fyny i'r £10 neu'r £100 agosaf (Mynegai Prisiau Defnyddwyr – Swyddfa Ystadegau Gwladol).*
- *Mae'r cynnydd mewn ffïoedd myfyrwyr rhyngwladol wedi'u seilio ar gyfradd gyfartalog y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer y deuddeg mis blaenorol wrth osod y ffïoedd, wedi'u talgrynnu i fyny i'r £10 neu'r £100 agosaf (Mynegai Prisiau Defnyddwyr – Swyddfa Ystadegau Gwladol).*

[37] http://pcstudents.southwales.ac.uk/

Bydd y ffi a delir gan fyfyrwyr yn seiliedig ar y gyfundrefn ffïoedd sydd ar waith pan fyddant yn cofrestru ar gwrs gyntaf. Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau ar hyd cyfnod arferol cwrs. Os na fydd myfyrwyr yn cwblhau eu cwrs am unrhyw reswm, gan gynnwys cyfnodau bylchog a gydnabyddir, bydd y ffi a godir arnynt yn seiliedig ar y gyfundrefn ffïoedd newydd sydd ar waith bryd hynny. Bydd unrhyw fyfyrwyr israddedig sy'n parhau i fod yn gymwys am fenthyciadau ffïoedd dysgu o dan y gyfundrefn ffïoedd, cyn 2012, yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn ffïoedd hon.

O ran myfyrwyr sy'n ailadrodd blwyddyn astudio lawn, codir y ffi amser llawn arnynt sy'n berthnasol i'r gyfundrefn ffïoedd y dechreuasant arni. Codir ffi ar fyfyrwyr israddedig sy'n ailadrodd cyrsiau ar sail ran-aser yn unol â nifer y credydau a gymerwyd pro rata i'r ffi amser llawn berthnasol. O ran myfyrwyr sy'n astudio 100 credyd neu fwy, codir y ffi amser llawn arnynt sy'n berthnasol i'r gyfundrefn ffïoedd y dechreuasant arni.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei chyrchu o wefannau, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau argraffedig a gwybodaeth esboniadol, cyngor ac arweiniad a ddarperir ar lafar i ddarpar fyfyrwyr, rhieni (lle y bo'n berthnasol) a'u cynghorwyr. Rydym yn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ffïoedd mewn amryw fformatau sy'n gweddu i'w hanghenion orau. Cyfathrebir yn unol â Siarter Myfyrwyr, Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol.

Mae gennym ystod o lefelau ffïoedd dysgu, a chyflëir y wybodaeth hon i'r holl ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol trwy amrywiaeth o gyfryngau:

- Ein Gwefan yw'r brif ffynhonnell gwybodaeth gyfredol am lefelau ffïoedd dysgu ar gyfer darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol. Mae pob cwrs a gynigir yn cael ei restru ar ein gwefan ni a gwefan UCAS/CUKAS, lle y dangosir y ffi fwyaf wrth ei ochr. Gall myfyrwyr breiniol gael gwybodaeth am y ddarpariaeth trwy wefannau eu Colegau eu hunain hefyd.
- Myfyrwyr breiniol – rydym yn sicrhau bod ein colegau partner addysg bellach yn cael gwybod am y lefelau ffïoedd dysgu cymeradwy sydd i'w codi am ein darpariaeth, yna mae'r colegau'n trosglwyddo'r wybodaeth hon i ddarpar fyfyrwyr trwy eu gwefannau neu drafodaethau un i un. Mae'r holl golegau'n buddsoddi swm cytunedig o incwm ffïoedd dysgu mewn cyfle cyfartal a hyrwyddo AU yn eu campws/campysau eu hunain, ac adlewyrchir hyn yn y buddsoddiad cyfan ar gyfer Prifysgol De Cymru.
- Mae Setiau Gwybodaeth Allweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol ar gyfer pob cwrs israddedig amser llawn a rhan-amser. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad ledled y Deyrnas Unedig i alluogi darpar fyfyrwyr i gymharu gwybodaeth yn rhwydd am enillion graddedigion, dysgu ac asesu, costau astudio, a faint o weithgareddau dysgu ac addysgu a amserlennwyd y gellir eu dilyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth trwy:

- *Brosbectws y Brifysgol*
- *Rhaglen cyswllt ag ysgolion a cholegau'r Brifysgol (sy'n cynnwys ymweliadau ar y campws ac oddi ar y campws, cylchlythyrau/hysbysiadau a digwyddiadau arbenigol)*
- *Cyfathrebu â darpar fyfyrwyr trwy ymgyrchoedd e-bost a chyfryngau cymdeithasol*
- *Diwrnodau agored a diwrnodau i ymgeiswyr*
- *Trwy ein Tîm Cyngor Ariannol Myfyrwyr.*

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol, gyfredol ac eglur er mwyn iddynt wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â chyrsiau.

Mae cyflwyno'r Setiau Gwybodaeth Allweddol yn sicrhau bod y data sydd ar gael gan brifysgolion ar gael yn hwylus ac yn gallu cael ei chymharu'n rhwydd.

Manylion llawn am gyrsiau, gan gynnwys rhaglenni cychwynnol Mae gwefan y Brifysgol, prosbectws y Brifysgol, gwefan UCAS/CUKAS a llenyddiaeth arall sy'n hyrwyddo cyrsiau oll yn datgan yn eglur ystod y cyrsiau sydd ar gael.

- Darperir manylion am bob cwrs, ei gynnwys, y dull o'i gyflwyno, ei leoliad cyflwyno a'r costau astudio mewn fformat eglur a chryno
- Yn ogystal, ar gyfer yr holl gyrsiau israddedig amser llawn a rhan-amser, mae'r Setiau Gwybodaeth Allweddol yn cynnwys tri chategori gwybodaeth am weithgareddau dysgu ac addysgu:
    - *gweithgareddau dysgu ac addysgu a amserlennwyd*
    - *astudio annibynnol dan arweiniad*
    - *lleoliadau/astudio dramor*
- Mae ymgeiswyr a gadarnhawyd yn derbyn gwybodaeth sefydlu gynhwysfawr trwy'r broses gofrestru, naill ai ar-lein neu ar ffurf copi caled. Ategir deunydd ar-lein gan raglen lawn o sesiynau sefydlu ac amserlenni wedi'u teilwra ym mhob Cyfadran.

Gwybodaeth sy'n amlinellu beth yn union sydd wedi'i gynnwys yn y ffïoedd a godir

- Byddwn yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y gyfraith diogelu defnyddwyr (Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015) a chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch. Byddwn yn sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael gwybodaeth eglur, ddealladwy, ddiamwys ac amserol am ein cyrsiau a'n costau, gan sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn ar y camau ymgeisio, cynnig a chofrestru.
- Mae pob cwrs israddedig amser llawn a gynigir wedi'i restru ar ein gwefan ni a gwefan UCAS/CUKAS, a bydd y ffi fwyaf wedi'i dangos wrth ei ochr.
- Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw gostau astudio cudd. Lle nad oes modd osgoi costau gorfodol ychwanegol trwy eithriad, e.e. teithiau maes rhyngwladol, prynu offer, archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ac ati, bydd y costau hyn yn cael eu datgan yn eglur.

Gwybodaeth fanwl am y pecyn cymorth ariannol myfyrwyr sydd ar gael yn eich sefydluad

- O ran myfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser, bydd pob set wybodaeth allweddol sy'n benodol i'r cwrs yn datgan 'ie' neu 'na' yn syml i ddangos p'un a oes mynediad posibl at:
    - ildiad ffi
    - cymorth â phrawf modd
    - cymorth heb brawf modd
- Mae adran benodol ar Gyllid Myfyrwyr ar wefan y Brifysgol, a reolir gan Dîm Cyngor Ariannol y Brifysgol, hefyd yn darparu gwybodaeth a chanllawiau manwl ynglŷn â'r pecynnau cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr Prifysgol De Cymru.
- Byddwn yn nodi unrhyw newidiadau i drefniadau cymorth y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru ac yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Darperir dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (a rhai cyfatebol).
- Mae Tîm Cyngor Ariannol Myfyrwyr y Brifysgol hefyd ar gael i ddarpar fyfywyr a allai ddymuno ceisio cyngor ar y cymorth ariannol penodol sydd ar gael iddynt, neu a allai fod yn cael trafferth ariannu eu hastudiaethau, a gallant gynorthwyo myfyrwyr i wneud cais am gymorth.
- Bydd myfyrwyr breiniol yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol yn eu Colegau. Rydym yn sicrhau bod yr holl golegau partner AB yn buddsoddi incwm ffïoedd dysgu mewn cyfle cyfartal a hyrwyddo AU. Ers 2015/16, rydym wedi annog colegau partner yn arbennig i

neilltuo incwm ffïoedd dysgu ar gyfer cyllid caledi, ochr yn ochr â pharhau â'u cymorth ar gyfer mynediad a phrofiad myfyrwyr.
- Trwy weithdai, rydym yn sicrhau bod staff colegau partner AB yn ymwybodol o unrhyw gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr breiniol ar ein prif gampysau e.e. adnoddau'r llyfrgell, Blackboard a GradEdge

Manylion ynglŷn â sut y bydd unrhyw newidiadau a allai ddigwydd yn ystod cyfnod y cwrs yn cael eu cyhoeddi

- Bydd unrhyw newidiadau ffurfiol i gyrsiau'n cael eu gwneud yn unol â Gweithdrefnau Rheoliadau Academaidd y Brifysgol a'u prosesu ar draws Strwythurau Pwyllgor y Brifysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr.
- Rhoddir gwybod i fyfyrwyr am newidiadau trwy lawlyfrau cwrs ac ar-lein trwy'r porth myfyrwyr, ar ein tudalennau cwrs ar Blackboard a thrwy ein rhwydwaith o gynrychiolwyr cwrs.

Bydd gwefan y Brifysgol, manylebau rhaglenni unigol a phob set wybodaeth allweddol yn darparu gwybodaeth gyfredol am gyrsiau i ddarpar fyfyrwyr hefyd.

Table A: Fee levels and fee income and investment, 2018/19

a) What is your highest proposed fee rate for:

	£
Full-time undergraduate	9,000
Full-time PGCE (QTS)	9,000

b) Will the proposed fees in a) (above) be charged for all full-time undergraduate higher education and PGCE (QTS) provision at your institution or provided on your behalf?

	Enter Yes or No
Full-time undergraduate	No
Full-time PGCE (QTS)	Yes

c) If no, what is your average (mean) fee per full-time undergraduate and PGCE (QTS) student likely to be?

	£
Full-time undergraduate	8,726
Full-time PGCE (QTS)	9,000
All FT UG/PGCE (QTS) students in plan	8,726

d) What post-2012/13 fee regime income do you expect to receive in 2018/19? You should include all fee income received per full-time undergraduate and PGCE (QTS) student.

	£
Full-time undergraduate	106,553,700
Full-time PGCE (QTS)	162,000
Total	**106,715,700**

e) Please provide details of how much fee income you expect to invest in relation to equality of opportunity and promotion of higher education. Where higher education providers had 2017/18 plans the proportion of total income invested in 2018/19 must be at least the proportion invested in 2017/18. For those applicants, HEFCW has provided below the 2017/18 amount and percentage of total income.

	2018/19		2017/18	
Total amount to be invested in:	£	% of total income	£	% of total income
Equality of opportunity	8,602,321	8.1%	9,116,329	7.4%
Promotion of higher education	8,376,307	7.8%	10,449,023	8.5%
Total	**16,978,628**	**15.9%**	**19,565,352**	**15.9%**

Table B: Fee and access plan income forecast expenditure, 2018/19
2018/19 fee and access plan income forecast expenditure

a) Equality of opportunity

Categories of expenditure to support individuals under represented in HE to:	2018/19 £	2017/18 £
1. promote and safeguard fair access to higher education, including identifying individuals with the greatest potential from under-represented groups;	475,242	428,703
2. attract and retain students and potential students from under-represented groups;	1,603,444	1,105,000
3. raise the educational aspirations and skills of people from under-represented groups to support success in higher education;	302,172	42,500
4. support and increase retention, progression and completion, particularly people from low participation neighbourhoods, looked after children, care leavers and carers;	1,454,740	1,082,081
5. improve the higher education experience for groups under-represented in higher education;	1,279,500	1,917,500
6. provide to under-represented groups effective information, before and during their studies;	352,777	126,583
7. provide high quality academic and welfare support to groups under-represented in higher education; and	1,996,849	1,025,835
8. support the progress to employment or further study of groups under-represented in higher education.	1,089,075	950,016
9. Other, for example fee and access plan evaluation	48,522	2,438,111
Total	**8,602,321**	**9,116,329**
Percentage of forecast expenditure to be spent on Equality of Opportunity	50.7%	46.6%

b) Promotion of HE

Categories of expenditure to :	2018/19 £	2017/18 £
1. deliver more effective engagement with private, public or voluntary bodies and communities in Wales;	273,711	329,789
2. improve the quality of learning and teaching, with reference to the quality of the student experience;	3,491,490	4,596,389
3. strengthen the employability of Welsh graduates;	477,407	573,951
